Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd.

Cyf. 5. Rhif 11.] TACHWEDD, 1905. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.
Y Cyfarfod Chwarterol.
Hau a Medi.
E. Ceredig Jones, M.A., Bradford.
O For i Deifi.
Angenion a Delfrydau yr Ysgol Sul.
Simon Jones, B.A., Pontypridd.
Crefydd Boneddwr.
Eglwys y Dyfodol.
Yr Hibbert Journal.
Priodasau. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argrafwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

LLYFRAU CYHOEDDEDIG AC AR WERTH GAN

J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

WEDROSIA:

Yn cynwys y Nofel Fuddugol yn Eisteddfod Mountain Ash, gan T. WEDRO EVANS. Un o'r llyfrau mwyaf difyr yn yr iaith Gymraeg.

PRIS 6c.; trwy y *Post*, 7c.

Hanes PLWYFI LLANGELER a PHENBOYR

Gan DANIEL E. JONES.

Buddugol yn Eisteddfod Drefach-Velindre, 1897. Wedi ei adolygu a'i helaethu, a chyda *Map* o'r Plwyfi.

Yn rhad trwy y *Post* am 3s. 6ch.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer,
Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

SHOP Y JONES, LLANDYSSUL.

BEN JONES,

DRAPER, GROCER, IRONMONGER, &c.

Ladies' Jackets and Gent's Coats of every description at Lowest Prices.

Guns from £1 to £10. Cartridges by all the well-known makers

Try our Special Indian Tip Tea 1s. 8d. per lb.

Ardwyn, Lampeter.

TIMOTHY RICHARDS,

Ironmonger and General Merchant.

Agent for Bradbury's Sewing Machines; J. Pullar & Sons, Dye Works, Perth; J. & B. White's Portland Cement; and for all kinds of Agricultural Implements.

Enormous Stock of Hanging Papers always on hand.

Guns, Pistols and Ammunition by John Hall, Curtis & Harvey, Eley's Nobel's and Kynock's.

FENCING, BARB AND NETTING WIRES.

District Agent for British and Foreign Bible Society.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE LONDON, N.

Head Mistress : Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term : Boarders, £17 17s., including Free Laundry ; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d. ; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding.

ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU,

ABERYSTWYTH.

(Un o Golegau Prifysgol Cymru.)

Llywydd : Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Rendel
Prifathraw : T. F. Roberts, M.A. (Oxon.).

Cynwysa y cwrs o Addysg y parotoad angenrheidiol am Raddau yn y Celfyddydau (Arts), Gwyddoniaeth a Chyfraith yn Mhrifysgol Cymru a bydd hefyd yn wasanaethgar i Efrydwyr yn parotoi ar gyfer Graddau yn y Celfyddydau (Arts), ac mewn Gwyddoniaeth yn Mhrifysgol Llundain, ar gyfer arholiadau yn Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt; yn gystal ac astudiaeth Feddygol yno ac mewn Prifysgolion eraill.

Yn yr Adran Amaethyddol trefnir parotoad neillduol ar gyfer arholiadau y Gymdeithas Amaethyddol a Thystysgrif y Surveyors' Institution.

Y Tal Blynyddol yn Adranau y Celfyddydau a Gwyddor yw £10 gydag ychydig yn rhagor am Addysg Ymarferol yn y 'Laboratories.'

Dyfarnir Ysgoloriaethau gwerth o £40 i £10 ar ddechreu'r tymhor yn mis Medi bob blwyddyn.

Perthyn i'r Coleg 'Gymnasium,' Cychod, 'Recreation Grounds,' &c.

Lletya'r Efrydwyr mewn tai yn y Dref neu yn Neuadd yr Efrydwyr—y Proff. Marshall, Warden, a'r Efrydesau mewn neuadd eang Alexandra Hall, o dan arolygiaeth Miss E. A. Carpenter.

Am Prospectus a manylion neillduol ynghylch yr Adranau Normalaidd, ac Amaethyddol ac Adran yr Athrawon Canolradd, ymofyner a

J. H. Davies, Registrar.

T. E. JONES & CO.,

ESTABLISHED 1852.

Corn Merchants, Wholesale and Retail Grocers,

The Stores and Ffrwdwen Mills, Llandyssul.

Wheat Plant of the most modern type newly set up.

Farmers' Wheat manufactured into first class Flour.

Home Brand Flour as well as Healing's retailed at the lowest prices.

London House, Llandyssul.

Children's Millinery & Costumes always in Stock.

B. MORRIS,

MILLINER,
& FANCY DRAPER,

Wedding & Mourning . . . . . Orders Promptly Executed.

Grand Assortment of Winter Millinery now shown.

Ordination Outfits Completed.

W. JONES,

Civil, Military, & Clerical Tailor,

LINCOLN HOUSE, Llandyssul.

Liveries and Breeches Making.

An assortment of Raincoats, Waterproof Coats & Ladies' Jackets, and Boys' Ready-made Suits always in Stock.

CHRISTR. THOMAS & BROS. Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS.

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS & BROS. LTD.,
BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.



"Our Watches have stood the Test of Time."

They are made of honest materials and perfect workmanship.

They are strictly moderate in price.

They are fully guaranteed, and are backed up by an excellent reputation of

Forty Years' Standing.

Call and inspect our varied Stock, or write for a selection to be sent free "On approval" at the shortest notice.

D. JONES & SON,

WATCHMAKERS, JEWELLERS, & OPTICIANS,

LLANDYSSUL.

We have always on view a large and tasty Stock of Wedding and Birthday Presents in Gold, Silver, and Electro-Plate.

ADRAN YR YSGOL SUL.

Mae yr amser wedi dod i feddwl am waith yr Arholiad nesaf.

Pwnc Safon 4 yw y chwech penod gyntaf yn "Bannau Ffydd" Freeman Clarke. Safon 3, y pum penod gyntaf yn yr un llyfr. Safon 2, yr Holwyddoreg, y drydedd benod. Safon 1, Gofyniadau i blant.

Y Parch. L. Williams, Rhydygwin, Felinfach, R.S.O., Cardiganshire, ydyw'r Ysgrifenydd presenol, ac ymofyner ag ef ar bob mater perthynol i'r adran. Gobeithiwn y gwneir pob brys i ddechreu gyda gwaith y tymhor. Gwnaed pob gweinidog ei ran gyda'r trefniadau, a bydd yn bosibl wedi'n i gychwyn o dan yr amodau mwyaf ffafriol.

W.J.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1905. [CYF. V. RHIF 11.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

CYNHALIWYD cyfarfodydd yr Hydref yn Rhydygwin Mercher ac Iau, Hydref 4 a 5. Yr oedd y gweinidogion canlynol yn bresenol:—J. Davies, Alltyplaca; R. C. Jones, Llanbedr; E. Ceredig Jones, M.A., Bradford; D. Evans, Cribyn; Dr. Tudor Jones, Abertawe; D. Rees, Bridgend; T. A. Thomas, Llandyssul; D. Evans, Cwmbach; E. Gwilym Evans, B.A., Chesterfield; E. O. Jenkins, Llwynrhydowen; Simon Jones, B.A., Pontypridd; J. P. Kane, Dowlais; D. R. Davies, Pentre; a L. Williams, Rhydygwin; hefyd y myfyrwyr canlynol:—J. Islan Jones, B.A., J. D. Jones, a D. J. Davies, B.A. Yr oedd yn bresenol hefyd yn ystod rhai o'r cyfarfodydd y gweinidogion canlynol o enwadau eraill:—Y Parchn. J. J. Jones, B.A., Llanelli; Gwilym Evans, Aberayron; a B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn. Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fercher gan y Parch. E. O. Jenkins, a phregethwyd ganddo oddiar Math. xiv. 19—21. Defnyddiodd yr hanes fel dameg; a sylwodd fod y bara, wrth fod Iesu yn ei dori, yn lluosogi, ac awgrymodd oddi wrth hyny mai yr unig ffordd y gallwn ni gynyddu ydyw drwy arfer pob elfen dda sydd ynom. Dilynwyd ef gan y Parch. D. Evans, Cwmbach. Dangosodd fod y gred Undodaidd, a bywyd wedi ei fyw yn unol â'r gred hon, yn galluogi dynion i farw yn ddiofn.

Am 9.30 dydd Iau cynhaliwyd Pwyllgor y Gymdeithas, o dan lywyddiaeth yr Is-gadeirydd (Cadben Davies, Rhydowenfach). Yr unig beth fu dan sylw oedd y frwydr bresenol sydd yn cael ei hymladd yn erbyn y Llywodraeth ar gwestiwn y Ddeddf Addysg newydd.

Pasiwyd y penderfyniad canlynol :—"Ein bod ni fel cynrychiolwyr yr eglwysi Undodaidd Cymreig yn Neheubarth Cymru yn derbyn yr egwyddorion ar y rhai y dygir yn mlaen y gwrthwynebiad presenol yn erbyn y Ddeddf Addysg newydd, ac yn addaw ymdrechu gwneud ein goreu yn mhob modd i hyrwyddo yr achos; ond ein bod ar yr un pryd yn gobeithio mai addysg fydol (*secular*) yn unig fydd yn cael ei dysgu yn yr ysgolion."

Am 11, dechreuwyd y gwasanaeth cyhoeddus gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn ddifrifol ac yn effeithiol iawn; a phregethwyd gan y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Bradford. Ymddengys y bregeth yn Yr Ymofynydd. Digon yw dweyd ei bod yn dal i fynu y farn uchel oedd genym am Mr. Jones fel pregethwr. Mae Mr. Jones wedi enill iddo ei hun er's amser bellach y cymeriad o fod yn un sydd a'i galon yn y gwaith da, ac yn dymuno ei weled yn llwyddo yn mhob man. Rhoddodd brawf o hyny y tro hwn eto wrth adael cartref a theithio gymaint pellder er mwyn helpu yr achos da yn y parth hwn.

Dechreuwyd gwasanaeth y prydnawn gan y Parch. T. A. Thomas. Pregethwyd gan y Parch. D. Rees oddiar Math. xii. 20. Sylwodd fod Iesu wedi d'od nid i ddamsang ar y ddynoliaeth, ond ei chodi. Lle bynag y gwelai wreichionen o wir fywyd, nid ei llethu wnai, ond anadlai arni yn dyner fel yr elai y wreichionen yn fflam. Yr oedd y synagog yn diarddel pechaduriaid ac yn eu hystyried yn ddirmygedig. Daeth Iesu i ddangos gwerth pobl, nad oedd eu bywyd ysprydol ond megys llin yn mygu. Ac wedi sylwi ar y modd yr ymddygai yr Iesu at bechaduriaid, dywedodd mai wrth arddangos yr un tynerwch y gallwn ninau enill pobl i fywydau pur a sanctaidd. Dilynwyd ef gan Dr. W. Tudor Jones, Abertawe. Pwnc ei bregeth oedd, "Pa fodd y mae cael gafael ar Dduw ac ar wir grefydd." Dangosai mai nid trwy fyned allan o'r byd y mae cael golwg ar Dduw, ond trwy sylwi ar y byd. Rhaid dechreu gyda phethau naturiol. Mae yn amhosibl gwneud hyny heb iddynt arwain ein meddyliau at Dduw. Sylwodd hefyd pa fodd i gael gafael ar wir grefydd. Mae llawer wedi cael eu dysgu mai rhywbeth yn y fan draw ydyw crefydd; mai rhyw ddaliadau a defodau neillduol ydyw crefydd. Ond y mae yn bosibl i'r grefydd hon i beidio effeithio dim ar eu bywyd. Pa ddaioni sydd o ddweyd, "Arglwydd, Arglwydd." Cyn byth y gellir cael gafael ar wir grefydd rhaid brwydro nes byddo'r bywyd uwchaf wedi trechu y bywyd is. Cawn drwy hyny ein cario i diriogaeth ysprydol, a daw dyn i dderbyn profiadau o bethau ysprydol fyddant mor sylweddol iddo a phethau naturiol.

Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. R. C. Jones, a phregethwyd gan y Parchn. Dr. W. Tudor Jones a J. Davies, Allty-placa. Pregethodd y blaenaf oddiar Math. v. 8. Pwnc ei bregeth oedd, "Y bywyd crefyddol, y bywyd uwchaf a goreu fel darfu Iesu ei fyw." Sylwodd fod perygl i ni gredu ein bod yn meddu ar grefydd drwy ddeall y peth hyn a'r peth arall. Mae crefydd yn rhywbeth ddylai fyn'd i lawr yn îs na'n deall ni, i waelod ein calon. Gall fod genym syniadau am Dduw, ond beth gwell ydym os na effeithiant ar ein bywyd ni? Beth gwerth yw gwybodaeth nad yw yn dod i lawr i gyffwrdd â'n calon? Sut y mae cael gafael ar grefydd, ynte? Drwy sylwi sut y mae dynion eraill wedi byw o'n blaen ni, ac yn enwedig Iesu Grist. Dangosodd Iesu i ni beth ddylai crefydd fod. Mae'r plentyn yn gorfod cael *drawing* o'i flaen cyn gallu tynu llun. Plant ydym ninau. Mae Iesu Grist yn esiampl o fywyd i ni; ac ond i ni ei ddilyn mor agos ag y gallwn, ni a ddeuwn i feddiant o grefydd na fedr y dyn nad oes ganddo ond gwybodaeth yn unig fyth gael gafael arni.

Pregethodd yr olaf oddiar Ioan ix. 4. Sylwodd fod y testyn yn ein harwain i feddwl beth ddylai amcan bywyd fod, sef, yn gyntaf, derbyn meddyliau Duw; yn ail, eu gwasgar; ac, yn drydydd, eu sylweddoli yn ein bywyd ymarferol. Sut mae dod o hyd i feddyliau Duw? Mae wedi datguddio ei hun i'r byd. Gwelir mawredd a doethineb Duw mewn Natur. Ond y mae eisiau i ni weled ei galon; ac y mae Duw wedi ei datguddio yn Nghrist. Rhaid i ni, yn ail, wasgar y meddyliau hyn. Rhoddodd Iesu orchymyn i'w ddisgyblion i bregethu yr efengyl i'r holl fyd. Ac amcan yr eglwys Gristionogol ydyw cyhoeddi y gwirionedd a gwneud meddyliau Duw yn wybyddus i'r byd. Ac, yn drydydd, mae y meddyliau dwyfol hyn i fod yn egwyddorion mewnol a llywodraethol yn ein bywydau ni.

Yr oedd y tywydd dipyn yn anymunol, ond cafwyd cynulliadau lluosog iawn. Yr oedd y llefarwyr ar eu goreu, a chredwn iddynt roddi boddlonrwydd mawr i bawb. Yr oedd y cyrddau yma y tro hwn o dan amgylchiadau mwy dymunol nag y buont yma erioed o'r blaen, gan fod genym yn awr dŷ capel newydd ac ystafell eang uwch ei ben. Gwnaeth pobl Rhydygwin eu goreu mewn darparu ar gyfer y cyfarfodydd a chyfranu yn mhob modd at eu llwyddiant. Teilyngant ein diolchgarwch cynes am eu hymdrechion llafurus.

L.W.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Mri. Golygwyr,—A fyddwch mor garedig a rhoddi i mi ofod i ddweyd gair neu ddau mewn perthynas i'r Cyfarfod Chwarterol yn Rhydygwin? Dichon y bydd barn ymwelydd achlysurol â sir Aberteifi o ryw ddefnydd i'r frawdoliaeth Undodaidd, am y rheswm nad ydym bob amser yn gweled ein hunain fel y gwelir ni gan eraill. Yn gyntaf oll, yr oedd y cynulliadau yn ardderchog; y goreu a welais erioed ar y fath achlysuron. Yr oedd yn amlwg fod yr oll o'r gwyddfodolion wedi ymgyrchu i'r llanerch sanctaidd er mwyn derbyn rhyw fudd ysprydol i'w heneidiau, a gobeithiaf na ddarfu iddynt gael eu siomi. Melus iawn oedd gweled yn bresenol aelodau o'r gwahanol gyfundebau crefyddol yn yr ardal—Eglwyswyr, Anibynwyr, Methodistiaid, a Bedyddwyr, yn gystal ag Undodiaid. Pan ymunai y brodyr a'r chwiorydd anwyl yn yr emynau, ac y cydgordiai eu lleisiau mor odiaeth, meddyliwn am eiriau y Salmydd: "Wele, mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd!" Yr oedd yr achlysur yn fath o flaenbrawf o'r wlad well, lle bydd holl gymylau enwadaeth wedi eu gyru ar ffo, a phawb "yn nofio mewn cariad a hedd." Dyma gyfle rhagorol, onide, i bwysleisio yr egwyddorion mawrion hyny a dueddant i uno holl blant Duw yn nghwlwm tangnefedd! Braidd yn ddieithriad cymerwyd mantais briodol o'r amgylchiad, ac i'r graddau hyny bu y cyfarfodydd yn fendithiol i'r achos da. Cariwyd allan y trefniadau yn ddeheuig iawn gan y gweinidog lleol, y Parch. Lewis Williams. Yr oedd yn amlwg yn nghyfarfod y Pwyllgor, boreu dydd Iau, nad oedd ei waith yn llawn mor hawdd ag y dymunid; ond, er hyny, gwnaeth ei ddyledswydd yn ogoneddus. Feallai y goddefir i mi, fel ymwelydd, i awgrymu i'n brodyr anwyl y byddai yn ddoeth iddynt, ar achlysuron fel hyn, i beidio rhoddi pwys gormodol ar faterion bychain na pherthynant yn uniongyrchol i brif ddyben y cyfarfodydd. Doeth hefyd fyddai trwytho pob brawddeg a draddodir âg yspryd yr hwn a ddywedodd: "Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, Ar garu o honoch eich gilydd." Pe mabwysiedid y rheol hon, byddai yn hawdd gwneud pob peth yn "weddus ac mewn trefn." Yn y gorphenol yr oedd yn arferiad, a roddai foddlonrwydd nid bychan i lawer, i alw ar weinidogion a myfyrwyr ieuainc i "ddechreu'r cwrdd"; ond yn Rhydygwin ni ddarfu i un o'r bechgyn ieuainc oeddynt yn bresenol gymeryd rhan gyhoeddus yn yr oedfäon. Byddai o fudd neillduol i'w cyfoedion i'w clywed yn anerch y Cariad tragywyddol, ac yn ddiameu yn foddion i'w dwyn i "gymdeithas agos, hoff, âg Ef." Mae dawn gweddi yn un o'r doniau godidocaf ag mae Duw wedi ein cynysgaeddu â hwynt, a dylid rhoddi pob cefnogaeth i'n gwŷr ieuainc addawol i'w gwrteithio yn briodol.

Yr oedd y canu yn dda dros ben—yn "foliant coeth i'r unig wir Dduw." Pe na b'ai dim ond y canu byddai yn dda i bawb o'r

gwyddfodolion fod yno. Er hyny, yr oedd lle i welliant. Awgrymaf i'r gwŷr hyny sydd ganddynt leisiau tanbaid iawn a gorchfygol, y byddai yr effaith yn fwy melus a tharawiadol pe canent ychydig yn fwy llariaidd. Pan fyddo un llais i'w glywed ar wahan oddiwrth y lleisiau eraill, anurddir y gerddoriaeth. Mae y cerddorion goreu o'r farn y gellir canu mawl i Dduw â'r yspryd, ac ar yr un pryd gadw y llais o fewn terfynau priodol. Mae clod neillduol yn ddyledus i'r ferch ieuanc a chwareuai yr organ, am y modd gwylaidd, defosiynol ac effeithiol, yr aeth drwy ei gwaith.

Yn y genadwri a draddodwyd, ar adegau, tybiem ein bod yn gwrando ar nodyn newydd; ond, wedi'r cyfan, hen wirionedd ydoedd mewn gwisg newydd. Yr wyf yn cyfeirio yn neillduol at ddwy bregeth Dr. Tudor Jones, y rhai a wnaethant argraff annileadwy ar ein meddyliau. Dangosodd i ni mewn modd tarawiadol iawn nas gall dim fod yn agosach atom na'n Tad Nefol. Y mae ef gyda ni bob amser o'r dydd yn barod i ymddyddan â ni, os ydym ni yn ddigon doeth i wrando arno. "Duw gyda ni"—dyna ein cenadwri ddwyfol, —"Duw gyda ni" yn harddwch y greadigaeth, yn esiampl yr Iesu, yn ein bendithion tymhorol, yn llais y gydwybod, yn serchiadau dyfnaf yr enaid, ac yn nhueddiadau ysprydol y galon bur. Mewn pregeth fèr, fedrus a chynwysfawr, gan ein hybarch flaenor, y Parch. John Davies, rhoddwyd diweddglo priodol iawn ar gyfres o gyfarfoddydd a hir gofir genym fel gwir foddion gras ac adgyfnerthiad ar ein gyrfa ysprydol.—Yr eiddoch, &c.,

D.T.

HAU A MEDI.

"Yr hwn sydd yn hau yn brin a fed hefyd yn brin; a'r hwn sydd yn hau yn helaeth a fed hefyd yn helaeth."—2 Cor. ix. 6.

Pregeth draddodwyd yn Nghyfarfod Chwarterol yr Hydref yn Rhydygwin,

GAN Y PARCH. E. CEREDIG JONES, M.A., BRADFORD.

Yn y tymhor hwn o'r flwyddyn pan y talwn ein offrwm o ddiolchgarwch i Arglwydd y cynhauaf am ei dirion drugareddau, dygir i'n sylw y syniad fod bywyd fel maes yn yr hwn yr hauwn ac y medwn. I'r maes hwn y taflwn yr hâd, yr hwn, mewn amser, a ymddengys yn gynhauaf, yn gywir fel y darfu i ni hau. Bob dydd o'n hoes yr ydym yn *hau* a *medi*. Gelwir arnom i hau pa un bynag a fyddwn ni ein hunain i fwynhau ffrwyth ein llafur, ai peidio. I bawb o honom yn ein gwahanol gylchoedd daw y gorchymyn ar brydiau: "Y bore haua dy had, a phrydnawn nac

atal dy law: canys ni wyddost pa un a ffyna, ai hyn yma ai hyn acw, ai ynte da fyddant ill dau yn yr un ffunud."

Fel y meddyliwn am gynhauaf y meusydd y tymhor hwn, dygir ni yn wyneb yn wyneb a deddf fawr Hau a Medi. Mae y cnwd o ffrwythau a addurnant y berllan, cynyrch toreithiog y meusydd sydd braidd i gyd wedi ei roddi yn ddiddos, a'r holl faeth a ddaw i ddyn o'r ardd a'r winllan i'w phriodoli i ddau brif achos—llafur dyn fel hauwr, a mawr drugaredd Duw yr hwn sydd yn rhoddi y cynydd. Mae yn ddeddf ddwyfol sydd yn llywodraethu y bywyd dynol, fod Duw yn tywallt ei fendithion goreu ar y rhai sydd yn llafurio gyda'r ffyddlondeb mwyaf: "Yr hwn sydd yn hau yn brin a fed hefyd yn brin: a'r hwn sydd yn hau yn helaeth a fed hefyd yn helaeth." Y rhai sydd yn hau efrau, efrau a fedant pan ddaw'r cynhauaf. Y rhai a hauant egwyddorion pur a moesau da yn moreu oes, a fedant lawenydd ac anrhydedd yn addfedrwydd eu hoedran fel canlyniad naturiol. Mae yn wybyddus i chwi fod cyfran fawr o'r had yn marw, oherwydd amryw achosion, ac nad oes dim yn dod o hono. Dywed Tennyson nad oes braidd un hedyn mewn haner cant, yn gwreiddio, tyfu a dwyn ffrwyth. Ond po uchaf yr ewch lleiaf i gyd o wastraff sydd ar bethau fel hyn, os gwastraff y gellir ei alw. Yn nghylch ein bywyd ysprydol nid *oes dim* yn marw. Mae cofnodiad perffaith yn cael ei wneyd o'r oll. Yn ol natur pethau rhaid i feddyliau, geiriau a gweithredoedd ddwyn eu canlyniadau. Fel y dywed ein dysgawdwr enwog Dr. Martineau, yn ei ffordd ardderchog ei hun: "Does dim a berthyn i ddyn byth yn marw." Mae yr oll ydym erioed wedi deimlo, meddwl a gwneyd yn byw yn ein cymeriadau fel y maent y funyd hon, ac yn ein dylanwad er drwg neu er daioni ar eraill.

Awgryma ein testyn ddau syniad i ni, y rhai fe ddichon y byddai yn fuddiol i ni i'w hystyried heddyw pan yr ydym oll, yr wyf yn sicr, yn ddiolchgar i'n Creawdwr a'n Cynhaliwr am ei gariad tuag atom yn ystod y flwyddyn. Y cysylltiad anwahanadwy a fodola rhwng Hau a Medi. 2. Sicrwydd o ddyfodiad y cynhauaf, er ei fod ambell waith fel yn oedi dyfod. Yn y lle cyntaf mae yn wirionedd eglur fod cysylltiad anwahanadwy rhwng Hau a Medi. Fel yr ydych yn ddiau wedi sylwi, nid oes un ffaith yn fwy eglur nag fod pob peth drwy'r bydysawd eang yn cael ei lywodraethu gan ddeddf *achos* ac *effaith*. Bydd i bob peth a wnawn—pob math o had a hauwn, ddwyn ei ffrwyth er ein anrhydedd neu er ein cywilydd. Yn wir nis gallaf ddychmygu unrhyw syniad a apelia atom gyda mwy o ddifrifoldeb na hwn—ein bod bob dydd yn hau naill ai drain ac ysgall y rhai a gawn eu medi gyda dagrau, neu hâd da cariad a dyledswydd y rhai a ddygant i ni lawnder o gysur a hedd. Fechgyn a merched ieuainc dyffryn Aeron, gadewch i mi ofyn i chwi pa un o'r ddau had ydych yn awr yn hau yn ngwanwyn eich bywyd. A ydych yn hau had da? Gellid dweyd fod helaethrwydd yr Hau yn dibynu ar y sel a'r cydwybodolrwydd ydym yn roddi yn ein gwaith. Nid yw y dyn a aiff i'r maes yn y boreu ac a erys yno hyd yr hwyr yn ofer yn gwneud dim i sicrhau cynhauaf llawn er fod yr had a'r tir yn dda. Yn yr un modd gallwn fod yn dal cysylltiad a rhyw achos da, ac yn proffesu yr egwyddorion mwyaf urddasol, ond os segurwyr ydym yn ngwinllan yr Arglwydd, ni allwn wneyd dim sydd wir deilwng o honom fel plant.

Ar y llaw arall, os awn oddiamgylch gan wneuthur daioni fel yr Iesu, Awdwr a Pherffeithydd ein ffydd, ni a hauwn had a rydd wir ddedwyddwch i ni yn amser cynhauaf. Rhaid i ni gofio nad yw yn angenrheidiol i ni fod yn feddianol ar gyfoeth mawr i wneyd daioni. Daeth yr Iesu fel un o dlodion y byd, ond am fod ei enaid yn gyfoethog o sel tuag at yr hyn oedd bur, cyfiawn a gwir, hyrwyddodd flaenfynediad dynoliaeth mewn

modd na ddarfu neb arall erioed wneud. Gellid dweyd mai ein prif alwedigaeth fel meibion a merched Duw yw hau yn helaeth hefyd drwy ddylanwad moesol ein bywyd beunyddiol. Drwy ein ymddygiad caruaidd, drwy ein hymddiddan adeiladol, drwy ein tirion gydymdeimlad, a thrwy roddi ein holl fryd ar fyw bywyd rhinweddol, gallwn hau yn y fath fodd ag i gynyrchu cynhauaf llawn.

Os yr â ein calonau allan mewn cydymdeimlad i gynorthwyo rhyw enaid egwan i ymladd brwydr bywyd, hauwn yn ei fynwes had nerth moesol a ymdaena o enaid i enaid, a bydd yn fendith i filoedd ydynt eto heb eu geni. Feallai eich bod chwi famau yn anghofio beth ydych wedi wneud dros eich plant; ond gellwch fod yn sicr y bydd i elfenau cariad, purdeb a gwirionedd ddarfu i chwi blanu yn eu calonau fod yn fendith dragwyddol iddynt.

"Fel bo'r fam y bydd y plant
O dyfiant ac o dafod."

Fel rheol y mae'r fam yn medi yr hyn mae'n hau. Fe ddigwydd yn aml hefyd yr heuir yr had goreu gan rai nad ydynt o fawr bwys yn ngolwg y byd. Dywedai y diweddar Henry Ward Beecher unwaith yn fy nglyw ei fod ef yn ddyledus am ddeffroad ei fywyd ysprydol i *ddylanwad* gwas o negro yn nhy ei dad, yr hwn a roddodd y wers gyntaf iddo mewn pethau dwyfol. Fe hauodd y negro hwn yn helaeth, a helaeth iawn fu y cynhauaf. Felly, megys y cynyrchir y blodau harddaf yn fynych oddiwrth yr had mwyaf distadl, mae y canlyniadau mwyaf gogoneddus yn tarddu o wasanaeth a ymddengys i ni yn ddibwys a dinod.

Mae yn anrhydedd, yn wir, i berthyn i'r fintai sydd yn hau had da, er efallai, fel y dywed y bardd, ni adawant un goffadwriaeth ond byd wedi ei wneud ychydig yn well oherwydd eu bod hwy wedi byw ynddo. Mae yn deilwng o'n hymgais i fyw yn y fath fodd, fel y gellid dweyd am danom ein bod wedi bod yn ffyddlon mewn gair, meddwl a gweithred, a'i bod yn brif amcan ein bywydau i ychwanegu rhyw gymaint at ddedwyddwch y byd. Mae esiampl y rhai sydd yn ceisio byw yn y wedd hon yn yspryd-oliaeth i'w cymydogion, ac erys am byth fel dylanwad da yn y byd.

Cawn hefyd engreifftiau tarawiadol o ddeddf Hau a Medi yn y rhai a hauant *yn brin*. Mae y dyn sydd yn dechreu taith bywyd mewn yspryd cul a hunangar, yn sicr o gael ei sioni hwyr neu hwyrach. "Yr hwn sydd yn hau yn brin, a fed hefyd yn brin." Fel ag y gwyddoch gwr o'r fath hyn oedd Cardinal Wolsey yn amser Harri'r Wythfed. Am y carai awdurdod a ffafr y brenhin yn fwy nag egwyddor, *mawr* fu ei gwymp. Pan welwn engreifftiau o'r fath hyd yr ydym yn barod i offrymu y weddi:

"Nefola 'nymuniadau
A'm tueddiadau i gyd;
A chyfod fy serchiadau
At bethau uwch y byd:
Fel byddo fy meddyliau
A'm geiriau'n fwy digoll,
'Scrifena yn fy nghalon
Dy gyfraith uniawn oll."

Fel y mae gan yr hauwr amcan uchel o'i flaen yn y gwanwyn pan dafl yr had i'r ddaear, sef sicrhau cynhauaf toreithiog, felly dylai pobl ieuainc ein eglwysi gael eu gyru yn mlaen gan ymgais aruchel i fedi gwobrwy gyfoethog—dim llai na chymeriad da ac ystor helaeth o wybodaeth. Dylent gofio fod llafur diflino yn un o anhebgorion llwyddiant. Mae yn un o'r camgymeriadau mwyaf i ddychymygu y tywelltir llwyddiant ar neb fel y gwlith o'r nefoedd.

"Ynfydrwydd yw disgwyl daw
Anrhydedd i chwilio am danat;
Nid disgyn fel cawod o wlaw
O'r nefoedd wnaiff urddas chwaith
Rhaid itti anturio dy hun [arnat,
Os ydwyt am adael dinodedd:
Rhaid itti anturio fel dyn
Os ydwyt am enill anrhydedd."

Felly ofer yw gobeithio am unrhyw fwynhad os nad ydym yn barod i lafurio am dano.

Ychydig wythnosau yn ol edmygem yr yd melynwawr ar y meusydd; ac

oddiwrth yr olygfa hon crwydrai ein meddyliau yn ol i amser hau. Yn yr un modd pan welwn wyr a gwragedd yn ymddwyn yn ddewr ac anrhydeddus. yr ydym yn meddwl am y dyddiau pan fuont yn hau—am ieuenctyd wedi ei gyflwyno i amcanion uchel ac ymdrechion teg. Mae Hau helaeth yn moreu oes yn sicrhau cynhauaf helaeth yn Hydref a Gauaf bywyd. "Beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe."

(*I'w barhau*).

O FOR I DEIFI.

(*Parhad o Rifyn Awst*).

"With rue my heart is laden
For golden friends I had,
For many a rose-lipt maiden,
And many a lightfoot lad.

By brooks too broad for leaping
The lightfoot boys are laid;
The rose-lipt girls are sleeping
In fields where roses fade.

A. E. HOUSMAN.

Anhawdd cyfieithu barddoniaeth, os, yn wir, mai posibl y gamp o gwbl. Pethau cysegredig yw geiriau y bardd gwirioneddol; ac ni ddylid ymyryd â hwy, pe bai modd peidio. Y ddau benill uchod, ynte, fel ag y maent, gânt fod yn gyweirnod ein hysgrif y tro hwn. Hen gyfeillion anwyl! a raid i'ch cof farw o'r tir dros byth? Y 'dyddiau heulog diddolur' dreuliasom gynt ar lanau Clettwr, Glowon, a Cherdin, a ydynt wedi diflanu o fod am dragwyddoldeb?

Hynaws, garedig J. J.; os byw wyt eto mewn cylch arall o fodolaeth, diamheu dy fod o fewn cyrhaedd fy meddyliau y fynud hon. Credai 'r hen bobl mewn nefoedd ac uffern—y naill dipyn yn rhy boeth, a'r llall, efallai, dipyn yn rhy oer i daro chwaeth newidiedig yr oes hon. Hynaws, caredig, gwresog oeddit ti. Bachgen nwyfus, ysprydol, llawen. Yr oedd hedyn athrylith yn dy ben, a swyn rhamant yn dy galon. Os byw eto dy yspryd, ac os yr un dy bersonoliaeth, edrychi yn ol gyda serch ar waenydd Llawrcwrt a bronydd Crugeryr. Hynod o *human* oedd J.J., ac wrth ymdrin llawer â phlant arosodd llawer o'r plentyn ynddo hyd y diwedd — pan newydd gyrhaedd oedran gwr. Nis gallaf feddwl am J.J. yn preswylio gororau Gwae na llenyrch Gwynfyd—ac am Delyn Aur, wel, os nad yw wedi cael talent newydd wedi ymadael â'r fuchedd hon, ychydig o doraeth wnaiff â hi, druan o hono! Y mae profion yr oesau, ac arbrofion y dyddiau diweddaf hyn, yn gryf o blaid y dybiaeth fod yna fodolaeth ysprydol ar ol y byd hwn; er ei bod yn ofnadwy o anhawdd i un materol, bydol, fel fy hun i gredu hyny. Yn nheyrnas anweledig yr awyr, ynte J.J., y tybiaf dy fod heddyw; nid yn mhell o 'swn y boen sy' yn y byd,' heb anghofio dy hen gyfoedion yn nhawelwch diog 'ardal lonydd yr aur delynau'; ond rhywle yn agos, agos atom; eto, yn teimlo dyddordeb byw yn dy geraint a'th gyfeillion ar y ddaear hon, yn galaru gyda hwynt, yn llawenhau gyda hwynt, yn eu helyntion yn y byd gwamal, isloerawl presenol. Wyt

ti'n cofio am allt Llawrcwrt, fel yr oedd yn y gwanwyn hwnw ys llawer dydd y treuliasom gymaint o hono gyda'n gilydd? Mae'r deri byrion, deiliog, yn sisial yn isel yno heno fod gwynt oer y gogledd wedi dod yn ol unwaith eto gyda hirnos hydref. Y foment hon gwelaf darth gwaenydd y Fadfa yn wyn yn ngoleu'r lloer; gwelaf y saith Seren Siriol yn wincio uwch amaethdy Blaenglowonfach; gwelaf yr hen deulu hen ffasiwn hwnw yn aflonyddu dan gymhelliad Sion Cwsg y foment hon, er nad yw eto yn llawn naw o'r gloch y nos. Gwelaf ffermydd Alltma'n, Pantbach, y Fadfa, a'u tai gwynion yn dysgleirio yn ngoleu'r lleuad. Clywaf swn dystaw Bwdran yn dylifo'n ddiog drwy y mawn; clywaf gŵn y gymydogaeth yn ateb eu gilydd drwy'r awel deneu, eglur; clywaf swn aflafar cadnoes yn Allt Eithin, Bronfelen; dyna aderyn wedi ei darfu yn ddisymwth gan rywbeth yn y drain gerllaw; ond nid yw'r cyfan ond dyferyn i'w gydmaru â'r môr o ddystawrwydd a ymestyna o'm cylch ar bob llaw. Ar fy nghlust y mae rhygl dail y deri yn taro'n barhaus; ac ar fy llygad y mae'r nefoedd fawr asur a'r myrddiwn ser diddarfod yn symud dros fy mhen fel dystaw ysplenydd osgordd. Pwy na wêl Frenin y Gogoniant yn myned heibio? Anwyl gyfaill maboed, gyda'th lygad tryloew o yspryd, weli di'r pethau mawrion hyn? Na, nid ar ben Pisgah mohonot ti. Nid arnat ti y gwasga'r twmpath gwyrddlas acw yn erw lom y beddrod. O leiaf, yr wyt yn fyw eto yn nghalon dy hen gyfaill; na, y mae pellder wedi gwisgo llen o borffor anfarwol barddoniaeth am danat, a serch wedi goreuro ei godreu âg aur diddarfod.

Diolch am ardd a dim ond ychydig flodau ynddi; diolch am allt heb ormod o goed; diolch am fyfyrgell heb ond ychydig lyfrau ynddi; a diolch am foreu oes heb ond ychydig gyfeillion. 'Does yr un cariad fel y cariad cyntaf. Pwy nas cofia hyd heddyw'r eneth fechan fochgoch ddenodd ei galon yn nechreu Chwefror bywyd?

"Pwy anghofia'r cusan roes
I lili wen gyntaf gwanwyn oes?"

Syrthio mewn serch a merch fach yr ysgolfeistr y diwrnod cyntaf yr aethum i'r ysgol erioed—pwy nad yw wedi gwneud rhywbeth tebyg? 'Does yr un ffrynd fel y ffrynd cyntaf. Melus odiaeth yw'r dracht gyntaf o gwpan cyfeillgarwch.

Anghofio Ifan y Bugail? Na wnaf byth. 'Nol dim a wn y mae Ifan eto ar dir y byw; a phan ei gwelais ef ddiweddaf yr oedd ei ddull a'i iaith, a'r osgo yn an-fugeiliol i'r eithaf. Ond yr oedd digon o'r hen bersonoliaeth yn aros ynddo i ddwyn yn ol yn fyw yr hogyn ieuanc hapus a ganai gyda'r defaid gynt ar Fanc Alltma'n. 'Doedd neb a ganai mor felus ag Ifan. 'Doedd neb a dynai lun llong ar gareg yn debyg iddo; a chan ei fod wedi ei godi yn mro ddinesig Cross Inn, siaradai Saesneg gwell na chrytiaid ardal anghysbell Capel Cynon. Na, nid yn unig Saesneg, ond Ffrancaeg hyd yn nod, a geid ar ei dafod rhugl. Cofiaf beth o'r Ffrancaeg hyd yn nod heddyw; ac er na ddeallid mohoni yn Paris, erys ei geiriau yn berlau gwerthfawr yn fy nghof. Pa faint roddwn, pe yn fy meddiant, am ambell orig o'r dyddiau gynt ar Fanc Alltma'n yn nghwmni Ifan y Bugail? Ond yr wyf eisoes wedi ysgrifenu am Ifan y Bugail; ac hyd yn nod pe na buaswn wedi gwneud hyny, o'r braidd y profai o ddyddordeb i'r darllenydd. Yn unig medrai arwain ei feddwl yn ol, feallai, at ryw fugail llawen, bachgenaidd, yn moreu ei oes yntau. Erbyn heddyw y mae'r bugail wedi dianc o fryniau Ceredigion—y mae ei glogyn gwyn wedi diflanu o'r mynyddau fel eira gwanwyn; y mae ei gân wedi dystewi o'r tir, a'i le wedi ei gymeryd gan—*wire* bigog!

B'le mae'r Fugeiles fochgoch hono wedi myned o waen Alltma'n? Cofiaf ei chân felus foreu o haf yn mhlith y brwyn a'r blodau, yn gwau hosan, yn bugeilio'r gwartheg, ac yn

canu—am fod ei bron yn iach, a'i chalon yn ysgafn ; a'r byd yn werth byw ynddo. Ni enwaf y fugeiles—mae yn fyw eto, neu yr oedd yn yn ddiweddar. Fel gwrthrych barddonol, prydferth, y mae wedi myn'd—erys yn unig yn rhamant y cof, fel Olwen y Mabinogion yn rhamantau'r cynfyd. Ei gruddiau gwridog, ei danedd gwynion mân, ei llygaid gloewon lliw ddu, ei hosgo ysgafn, ei llais melodaidd—y mae'r oll yn aros fyth yn nhrysordy cloedig y cof. Yn y dyfodol erys yn nghof rhywun, mae'n bosibl, wedi ei heuro gan serch—fel priod anwyl a hoff, fel mam gariadus a chysegredig. Erbyn hyn y mae hithau'r fugeiles wedi gadael y gwaenydd a'r dolydd, a'i chân, fel eiddo'r ehedydd yn Awst, wedi dystewi ar odreu ein bryniau. Yn unig

"Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo drostynt mae y gwynt."

A'm hen gyfaill anwyl J.D. Y mae'n byw eto, a phrofiad chwerw'r byd wedi peri i flodau rhamant ei ieuenctyd wywo yn ei galon er's blwyddi bellach. Fel pob hogyn yr oedd anturiaethau'r teithiwr, a'r milwr, a'r morwr, yn apelio'n gryf ato ; ac i'r môr yn fwyaf neillduol y troai llygad ei serch. Ond bu pregethau ei dad a dagrau ei fam yn foddion i lestair J.D. rhag 'cymeryd llong' am y gwledydd pell ; a chyfyngodd ei deithiau anturiaethus i byllau glo Morganwg. Erbyn hyn y mae fy hen gyfaill yn edrych ar y byd gyda llygaid profiadol gwr, heb fawr i synu ato, na dim i gynhyrfu ei ryfeddod. Druan o'r hwn sydd wedi colli'r gallu i ryfeddu ! Gwae'r hwn a wêl yr haul yn codi'n fyd o dân yn y boreu, ac yn machlud fel i fôr o aur toddedig yn yr hwyr—heb yr un syndod. Gwae'r hwn na wêl ddirgelwch yn y nefoedd uchod, nac ar y ddaear isod, nac yn y dyfroedd sydd odditan y ddaear. Y mae pawb yn cael ei geni i'r byd yn meddu'r synwyr o ryfeddod, ac y mae blynyddau yn ei bylu mewn rhai ac yn ei awchlymu mewn eraill. Ond hyd ddiwedd oes yr ydym oll yn byw mewn môr o ryfeddodau. Dyma'r meddyliau a dd'ont i mi wrth gofio am fy hen gyfaill anwyl J.D. Dichon fy mod yn gwneud câm âg ef. Efallai fod rhamant yn byw yn ei fynwes o hyd, ond fod pethau'r byd hwn yn ei guddio. Po fwyaf o amser dreuliaf yn y byd, sicraf wyf o hyd mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng dyn a dyn—yn ei anhebgorion. Mae teimladau dyfnaf y galon yr un yn y brenin a'r slaf, yn yr Ymherawdwr a deiliad mwyaf iselradd ei deyrnas.

Ond y mae fy ysgrif yn dod i ben cyn son am aml i gyfaill arall a dramwyai gyda mi rodfeydd boreu oes.

"Yn nyddiau haf ar lanau'r nant,
Y buom ar ein hynt ;
Ond moroedd maith fu rhyngom ni
Er dyddiau'r amser gynt.

Ie, dwr y nant a'n gwahana ni yn oriau haf ieuenctyd ; ond bu moroedd yn rhuo rhyngom flynyddau gwedi hyn—moroedd o ddwfr hallt, moroedd o helyntion bydol, moroedd o fân elyniaethau bywyd ! Ardderchog benill Burns, onide ?—

"We twa ha'e paidl't i' the burn
Frae mornin' sun till dine ;
But seas between us braed ha'e roared
Sin' Auld Lang Syne.

S.

YR ADFAIL AR Y TRAETH.

Ow ! Pa drig lom ? Pedair gwàl lwyd—heb ond
Y nen bell yn gronglwyd :
Mwg na chân mwy gawn ni chwyd
O'i helbulus wleb aelwyd.—D.R.D.

ANGHENION A DELFRYDAU YR YSGOL SUL.

Gan y Parch. Simon Jones, B.A., Pontypridd.

(Parhad o'r Rhifyn diweddaf.)

Mae'r olygfa yn newid. Safaf gerllaw amaethdy yn 'Ysmotyn Du,' Ceredigion. Mae tawelwch dwyfol Sabbath y wlad yn amgylchynu'r lle. Min hwyr ydyw. O dan y dderwen ger y ty eistedda'r amaethwr a'i unig fachgen—deg oed. Mae gwynebpryd ac osgo yr amaethwr yn arddangos tad duwiol yn cynghori ei fab. Neshaf atynt i wrando. "Beibl arall Duw, ie, Beibl cyntaf Duw yw'r hyn weli di oddiamgylch," meddai'r tad. "Dyma'r hen dderwen yma: 'dwy i ddim haner mor hen a hi. Bu nhad a nhadcu, a'i dadcu yntau, yn eistedd dan ei changau, a phob un yn ei dro yn ei galw yn eiddo iddo ef. Er hyny, saif yr hen dderwen o hyd, er y colla ei meistri fel y colla ei dail. Derwen Duw ydyw. Dyna'r ffurfafen uwch ein penau, lle'r ymddangosa yr haul a'r lleuad a'r ser ar eu teithiau. Mor brydferth y nefoedd serenog! Duw sydd wedi paentio'r darlun. Eto mor ofnadwy yw'r meddwl fod pob seren yn fydysawd ynddi ei hun; a phe gallem ddringo i fynu i'r bydoedd aneirif yna, cawsem weled bydoedd eraill yn uwch ac uwch yn barhaus. Mor rhamantus eu hanes! ac eto y mae y rhai hyn oll o dan lywodraeth a gofal Duw. Ie, y mae Duw yn byw yn mhob un o honynt. Mae gan Mr. Evans y Plas dŷ yn y dref yn ogystal a'i balasdy yn y wlad. Ond y mae gan Dduw dŷ yn mhobman. Yn wir, ei balasdy Ef yw pob bydysawd. Ei balasdy Ef yw'r ddaear yma, a ninau ydym Ei blant. Er fod ganddo yr holl fydoedd yma i ofalu am danynt, eto y mae yn gofalu am danom ni—am danat ti, fel pe byddit Ei unig blentyn. Yr wyt wedi treulio yr ychydig amser wyt wedi fyw yn y byd yn hollol yn fy nghwmpeini i; mae fy nghariad a'm tynerwch tuag atat wedi peri i ti edrych arnaf fel dy unig noddwr a'th gyfaill, oddiwrth yr hwn y deillia pob pleser a fwynhei. Gwn y gwnai dy galon fechan dori gan dristwch pe y meddyliet mai dyma y dydd olaf y cawn fyw gyda thi. Er dy fod fel hyn mor hapus, fy mhlentyn, am dy fod yn fy ymyl i, er hyny, 'r wyf am i ti gofio dy fod bob amser yn agos at, ac o dan ofal tyner, Tad a Chyfaill rhagorach, cariad yr Hwn sydd yn fwy hyd yn nod na'r eiddof fi, ac oddiwrth yr Hwn y derbyni roddion nad all un dyn eu sicrhau. Gan hyny, fy mhlentyn, parcha, addola, a châr dy Dad yr Hwn sydd yn y nefoedd. Edrych i fynu ato fel ffynhonell pob cysur a dderbyni trwof fi, a bydd i'r Hwn a fendithiodd dy dadau, a fendithia dy dad, dy fendithio dithau pan y bydd fy yspryd i wedi ehedeg at yr Hwn a'i rhoes.* Trachefn y clywais y llais o'm hol yn sibrwd, "Natur, Bywyd, Cariad, Duw."

Ar ol hyn caf fy hun yn rhodio ar hyd Whitworth Park, Manceinion. Mewn gwely o flodau o'm blaen gorwedda cerflun (*statue*) o'r Iesu. Y mae ar ei eistedd. Ar y llawr mae plentyn bychan yn cysgu, ac y mae wedi gwneud traed yr Iesu yn obenydd. Ar y dde—yn pwyso ar ei lin ac yn syllu i fynu i'w lygaid, fel pe yn gwrando yn astud—y mae genethig. Mae braich yr Iesu am dani i'w chalonogi, ac i wneud y cysylltiad rhyngddynt yn fwy byw. Ar y chwith mae bachgenyn, gyda llaw yr Iesu yn gorwedd yn dirion ar ei ben. Deil y

* Gydag ymddiheuriadau i William Law, y *mystic*.

bachgen yn ei law lili brydferth, fel pe wedi ei dwyn i'r Iesu i'w hedmygu. Sylla'r Iesu ar y lili, y bachgen ar yr Iesu. "Dyma," meddwn, "yr Athraw a'r plant." A thra yr oedd y geiriau eto ar fy nhafod, anadlwyd ar y cerflun anadl einioes ; mae'r gwefusau yn symud, a Iesu yn siarad fel cynt : "Ystyriwch lili y maes, pa fodd y maent yn tyfu : nid ydynt nac yn llafurio, nac yn nyddu ; eithr yr wyf yn dywedyd i chwi na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn. Am hyny os dillada Duw felly lysieuyn y maes, yr hwn sydd heddyw, ac y foru a fwrir i'r ffwrn, oni ddillada Efe chwi yn hytrach o lawer." "Edrychwch ar adar y nefoedd : oblegyd nid ydynt yn hau, nac yn medi, nac yn cywain i ysguboriau ; ac y mae eich Tad Nefol yn eu porthi hwy. Onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy?" "Yr Iesu," meddai llais o'm hol, "yn addysgu'r plant yn egwyddorion crefydd." "Trwy Natur i fynu at Dduw Natur." "Natur, Bywyd, Cariad, Duw." "Dychwel i'th dŷ a dysg oddiwrth y gweledigaethau hyn ddull y doeth o addysgu'r byd."

Fel yma, y mae adegau yn ein hanes pan, o dan arweiniad angylion Duw, y dangosir i ni ryw gymaint o ddirgeledigaethau bywyd. A dyma neges y gweledigaethau hyn i mi. Dysgasant i mi yr iawn ddull o addysgu'r plant yn egwyddorion crefydd. Rhaid ceisio eu tywys trwy Natur a Bywyd a Chariad i fynu at Dduw Natur, awdwr Bywyd a ffynhonell Cariad. Unwaith yr arweiniwn hwy i fewn i weled trefn a phrydferthwch a gogoniant Natur, cymer Natur ofal o honynt, fel y dywed Longfellow iddi wneud o Agassiz :

"And Nature, the old nurse, took
The child upon her knee,
Saying : 'Here is a story book
Thy Father has written for thee.

'Come, wander with me,' she said,
'Into regions yet untrod,
And read what is still unread
In the manuscripts of God.'

And he wandered away and away
With Nature, the dear old nurse,
Who sang to him night and day
The rhymes of the universe."

Bod yn agos at galon Natur yw bod yn agos at galon Duw. Gyda'r gweledigaethau hyn eto ar fy meddwl, edrychais i hanes dynoliaeth am gadarnhad o honynt fel tywysiad pellach. Cefais mai yr un dull gymerodd ac a gymera Duw o amlygu ei Hun i'r hil ddynol. Yn ol yn nechreuad hanes, yn ogystal ag yn mywyd yr anwar heddyw, cawn mai yn Natur y mae Duw yn amlygu ei Hun. Duw y daran a'r fellten, yr haul a'r ser, y tir a'r môr, yw Duw cyntaf dyn. Ac er cymaint a chwerddir ar ben yr 'hen baganiaid,' credaf fod ganddynt fwy o Dduw yn eu haddoliad o Natur na llawer i Gristion proffesedig yn ein dyddiau ni. Yr ail ystad yn hanes crefyddol dynoliaeth yw Duw yn amlygu ei Hun mewn dynion. Yn yr oesau hyn, yr oedd arwyr maes y rhyfel, er engraifft, o âch y duwiau ; yr oedd eu tad neu eu mam yn perthyn i'r cyfryw, ac ar ol eu marwolaeth yr oeddynt hwythau eu hunain yn cymeryd eu lle yn y nefolion leoedd—yn nghyngor y duwiau. Duw mewn dynoliaeth, ynte—nid dynoliaeth yn Dduw, yn ol ystyr Comte, ond Duw mewn dynoliaeth—gwirionedd sylfaenol yr ymgnawdoliad yw'r gyfundrefn dduwinyddol sydd yn canlyn yr addoliad o Dduw yn Natur. Mae athronyddion gwir a gau ein dyddiau ni wedi cyrhaedd y trydydd ystad. Iaith cyfundrefn dduwinyddol yr ystad hon ydyw 'Yspryd yw Duw.' 'Mae Duw yn Hollalluog, Hollwybodol, a Hollbresenol.' Ni fyddai son am y gosodiadau hyn wrth yr anwar ond cynyddu y dyryswch a'r dirgelwch, a beiddiaf gredu mai Groeg ydyw, ys dywed Shakespeare, i'r plentyn.

---

* The Fiftieth Birthday of Agassiz.

Dywedir nad oes gwall rhesymegol gwaeth na cheisio esponio yr anadnabyddus trwy gyfrwng y mwy anadnabyddus, ac ymddengys i mi mai dyma wneir pan yn sôn wrth y plentyn am Dduw yn yr *abstract*. Nis gellir yn addysg grefyddol y plentyn, mwy nag yn addysg grefyddol yr hil ddynol, gyrhaedd y drydydd ystad oddieithr trwy yr ystad gyntaf a'r ail. Cyn y gellir amgyffred Duw fel Yspryd ac fel Cariad rhaid i ni ei weled yn Natur ac mewn dyn. Dyma'r modd y cawsai Kant afael ynddo, fel y datgan ei ddywediad adnabyddus: "Dau beth a lanwant y meddwl âg edmygedd a pharchedig ofn — bythnewydd a bythgynyddol, pa fynychaf a mwyaf diysgog yr ystyriom hwynt; y nefoedd serenog uwchben a'r gyfraith foesol o'n mewn. Ni raid i mi chwilio am danynt a'u dychymygu fel pe yr ymguddient mewn tywyllwch neu yn yr uchelderau tuhwnt i'm gweledigaeth; gwelaf hwy o'm blaen a chysylltaf hwynt yn uniongyrchol â'r ymwybyddiaeth o'm bodolaeth." Dyma, ynte, ddull Duw o amlygu ei Hun i'r hil ddynol—"Trwy Natur i fynu at Dduw Natur." Dyma ddull yr athronydd, dull yr amaethwr duwiol, dull yr Iesu. Ai nid gwell i ninau, yn ein Hysgolion Sul, i ddilyn esiampl Duw a'r doethion, yn hytrach na cheisio gwella gwaith y cread. Dechreuwn gyda'r gweledig ac arweiniwn ein dysgyblion ieuainc oddi wrth y gweledig at yr anweledig, fel y gwnelai Iesu. Fel y mae yn awr, gwnawn ddechreu gyda'r Anweledig, a thrwy rhyw ddyrys a rhyfedd droion y cyrhaeddwn o'r diwedd—os y cyrhaeddwn o gwbl — fro y gweledig. Yn lle dangos i'r plentyn ddwyfoldeb natur a dwyfoldeb dyn, nes iddo syrthio mewn cariad a dyledswydd, a'i ddenu i wneuthur daioni, ymdrechwn, a hyny i ychydig bwrpas, roddi ar ddeall iddo mai 'Yspryd yw Duw': Ei fod yn Hollalluog, Hollwybodol a Hollbobpeth—brawddegau ydynt mor ddiystyr i'r plentyn ag i'r pagan. Ymddengys hyn i mi yn wall difrifol yn ein dull o wneud ein gwaith — gwall ag sydd wedi gwneuthur llawer i ddyn ieuanc yn anghredadyn, ac a fuasai wedi gwneuthur rhagor felly, oni bai fod arweiniad dystaw Duw wedi gwneuthur iawn am fethiant ein hysgolion, ac wedi eu tywys trwy nos anobaith a thywyllwch anffyddiaeth i weled seren ffydd a haul y Cariad dwyfol.

Achwynwn, a iawn achwynwn, fod deiliaid ein hysgolion, yn ogystal âg aelodau ein heglwysi, yn ddiffygiol mewn parch a defosiwn; fod Duw yn cael ei gau allan o'n capelau am nad yw awyrgylch ein haddoliad cyhoeddus yn gydnaws â phresenoldeb ei yspryd. Anturiaf ddywedyd y gwneid i ffwrdd â'r ystad anymunol hyn o bethau pe mabwysiedid y gyfundrefn sydd wedi ei gosod ger eich bron mewn modd mor amherffaith. Symudwch yr achos, a chwi symudwch yr effaith; newidiwch y cynllun, a chwi newidiwch y canlyniad. Ni raid sylwi yn fanwl iawn ar fywyd y plentyn cyn gweled fod yna berthynas agos rhyngddo â natur—ei famaeth ydyw; mae ei gymundeb agos â dyn yn un o'r elfenau mwyaf pwysig yn ei ddygiad i fynu. Paham, ynte, na wnawn ni y rhai hyn yn byrth trwy y rhai y gall fyned i mewn i gysegr sancteiddiolaf Duw.?—trwy y gweledig at yr Anweledig, trwy y tymhorol at y Tragwyddol, trwy Natur a dyn at Dduw. Yn y modd yma credaf y gwneir yr ymwybyddiaeth o Dduw yn fwy byw, yr adnabyddiaeth o hono yn well, ac fel canlyniad daw y gyfraith foesol yn gryfach, ei galwad yn fwy taer, a'i hawliau yn fwy awdurdodol, oblegyd nid yw yr hwn sydd heb iawn amgyffred Tadoldeb Duw wedi deall grym y gwirionedd o frawdoldeb dyn. Heb dad nid oes brawd. Mae y termau yn berthynasol. Yr addysg syml hono sydd yn dechreu gyda dwyfoldeb natur ac yn myned i fynu trwy ddwyfoldeb dyn at Dadoldeb Duw, ac yna drachefn yn dyfod yn ol at frawdoldeb dyn yw'r addysg grefyddol angenrheidiol yn ein Hysgolion Sul ni heddyw. Maddeued Doethineb yr Oesau i mi am gyflwyno ei chenadwri mor am-

herffaith. Mai ei chenadwri hi wyf wedi geisio osod o'ch blaen, 'rwy'n teimlo'n berffaith sicr. Er gwaned fy ffydd yn fy nghyflwyniad i o'r gyfundrefn, mae fy ffydd yn y gyfundrefn ei hun yn ddiderfyn. Hwyr neu hwyrach, caiff dderbyniad. Canys nid oes modd gwella ar

DDULL DUW O ADDYSGU'R BYD.

CREFYDD BONEDDWR.*

Dyma deitl un o lyfrau Charles F. Dole, yr hwn sydd yn weinidog yr efengyl yn America. Nid oes crybwylliad ar y tudalen gyntaf mai pregethwr ydyw yr awdwr. Nid rhestr o bregethau yn yr ystyr gyffredin ydyw y gyfrol. Eto, gellid dychymygu fod yr awdwr yn pregethu yn y gwahanol benodau gyda hyawdledd a gwres i gynulleidfa o bobl, ac fod yna argraff ddofn a dylanwad derchafol yn cael eu gwneud ar fywydau y gwrandawyr. Tebygol yw fod o leiaf y mater yn ngwahanol lyfrau C. F. Dole wedi ei ddefnyddio yn y pwlpud, ac ar awgrym cyfaill wedi ei ail drefnu yn y ffurf o draethawd a'i argraffu yn gyfrolau. Ac mae rhai darnau o'r penodau yn cludo adgofion o bregeth i'r meddwl, ac yn enwedig y rhanau sydd yn cynwys apel bersonol, nid at "y darllenydd anwyl," ond megis at gynulleidfa. Wele engraifft:—"Gadewch eich hunain i fyn'd; rhoddwch heibio bob gofal am eich iechyd: penderfynwch, fel mae pob milwr yn rhwym o benderfynu, eich bod yn barod i farw, os marw raid. Ond, eto, penderfynwch hefyd i fyw fel pe baech yn myn'd i fyw yn y blaen am byth: rhoddwch eich hunain i fynu, cyhyd ag yr ydych yn myn'd i fyw, i fyw yn deilwng, yn gyfiawn, yn ardderchog. Gwnewch eich corph, fel ag y mae, yn offeryn i'w ddefnyddio yn unig, ac yn sianel i gludo a chyfranu yr oll o'r gallu a'r bywyd ag sydd bosibl." Ond os cyfres o bregethau wedi eu cyfaddasu yn benodau ydyw y llyfr hwn, maent yn bregethau—ys dywedodd masnachydd mwynlân am ei nwyddau—"o'r fath oreu," a byddai calonau llawer o bregethwyr yn curo llawenydd i'w bywydau pe medrent wau gyda'u dychymyg ymadroddion mor gynwysfawr, mor uchelgeisiol, ac mor llawn o drwyth cariad ac ewyllys da.

Mae yr awdwr yn dduwinyddol yn sefyll ar lwyfan hollol ryddfrydig. Cred y dylai y wir eglwys agor ei drysau yn ddigon llydan i gymeryd i mewn yr holl eneidiau geirwir a didwyll. Dylai fod yn eglwys i'r holl ddynoliaeth. Ond nid yn yr awyrgylch Gristionogol hon y dygwyd ef i fyny yn blentyn, ond mewn un lle y clywodd am lawer o bobl ardderchog yn cael eu dyfarnu i ddyoddef poenau diderfyn oherwydd eu hopiniynau crefyddol. Ac yr oedd ynddo awydd er pan yn ieuanc i osod allan wirioneddau mawr crefydd

* "THE RELIGION OF A GENTLEMAN." By Charles F. Dole. pp. xvi. 216, 16mo., cloth, gilt top, $1. Publishers: Thomas Y. Crowell & Co., New York.

yn y fath ffurf gariadus ag i fod yn ddeniadol i ieuenctyd y byd. Ond os dyma amcan yr awdwr,

Paham yr apelia at y boneddwr yn unig?

Nid cyfoeth, na sefyllfa gymdeithasol, yn ol ei farn ef, sydd yn gwneud boneddwr; er ei bod yn fantais i bob plentyn gael ei eni i deulu sydd yn meddu nid yn unig ar gyfoeth, ond coethder, cymeriad pur, ac yspryd rhyddfrydig. Byddai yn dda pe bai pob plentyn yn gallu dyweyd, — "'Roedd fy nhad yn foneddwr." Mae y boneddwr yn un sydd yn caru yr hil, yn amddiffynydd budd a daioni y cyhoedd, yn gynorthwywr ac ymgeleddwr hawliau a breintiau dynoliaeth. Ac nid ydyw o wahaniaeth i ba ddosbarth o gymdeithas y perthyna, na pha alwedigaeth ddilyna er enill ei fara beunyddiol. Mae yn foneddwr os ydyw yn wr haelionus, yn feddianol ar gydwybod gymdeithasol, ac yspryd anhunanol ac addfwyn. Dywed Burke fod "gwareiddiad am oesoedd yn ymddibynu ar ddwy egwyddor— yspryd crefydd ac yspryd y boneddwr." "Mae yspryd y boneddwr yn ffoi, gan nad i ba ddosbarth mewn cymdeithas y perthyna y dyn, os daw hunanoldeb, rhodres, a balchder i fewn i'r bywyd. Dywedodd Lloyd George, ychydig amser yn ol, fod

Iesu Grist yn foneddwr.

Mae y dywediad yn disgyn gydag aceniad hynod ar y glust; eto, pe bai holl drigolion daear yn byw yn yspryd Iesu Grist, gellir bod yn sicr y byddai pob bôd dynol yn meddu ar urddas, haelioni, mawredd, daioni a chariad, neu, mewn geiriau eraill, yn byw yn yspryd y boneddwr.

Mae yr awdwr yn cyffwrdd yr eithafoedd mewn drychfeddyliau pan yn desgrifio ansawdd yspryd. Wele rai o'i sylwadau o dan y penawd hwn: "Pan yr ydym yn dyweyd yspryd, yr ydym yn golygu yr yni anfeidrol ac anweledig sydd yn amlygu ei hun yn neddf dysgyrchiant." "Pan yr ydym yn siarad am drydaniaeth, beth arall ydym yn olygu ond yspryd, y sylwedd anweledig, o'r hwn nid ydyw y ffurf hon o yni ond amlygiad arall? Yspryd, ddywedwn ni, ydyw yr hyn sydd yn datguddio ei hun fel yni anfeidrol. Mewn geiriau eraill, mae teyrnas yr yspryd yn deyrnas gallu a nerth." "Mae yr hyn sydd yn gwneud goleuni yn yspryd." "Gadewch i ni ddyweyd mai yspryd ydyw yr unig sylwedd, ac mai mater ydyw ei ddelw neu ei wisg. Gadewch i ni ddyweyd nad ydyw y byd materol ond amlygiad o'r yspryd." Er fod y llyfr wedi ei ysgrifenu cyn i ddarganfyddiadau yn myd y pelydrau a *radium* chwyldroi yr holl syniadau am ansawdd mater, mae y drychfeddyliau newydd yn adgyfnerthu golygiadau Mr. Dole yn hytrach na'u gwanhau. "Yspryd hefyd ydyw y gwir ddyn; nid ydyw y corph ond ffurf yn unig. Mae yr yspryd yr un yn Nuw ac mewn dyn." Yr ydym wedi gweled yr yspryd yn y dynion sydd wedi cyflawni gweithredoedd prydferth, a'r rhai hyny ddarfu ysgrifenu geiriau bywiog, megys Psalm 23ain, a *Crossing the Bar*; a gallwn ddyweyd "Amen" i bob un o wynfydau Iesu. Mae yr holl gewri yn y byd crefyddol yn arddangos ansawdd yr yspryd. Maent wedi dyfod oddiwrth Dduw. Sut arall y daethont? Mae rhai o honynt wedi ein gadael, ond maent yn sicr o fod wedi dychwelyd at Dduw. Yn ei ffurf uwchaf, fel y mae yn ymddangos yn yr arwyr a'r cewri yn myd sylweddau a gweithredoedd, mae yr yspryd yn gariad a daioni. Dyma y ffurf newydd o athrawiaeth yr ymgnawdoliad.

B'le mae yr yspryd daionus i'w ganfod pan mae cymaint o hagrwch, drygioni a chasineb mewn bywyd? Dyma gwestiwn y gwrthddadleuwr; ac nid ydyw yr ateb mor anhawdd ag mae rhai yn ceisio gwneud allan ei fod. Mae gallu anfeidrol mewn bodolaeth er ei fod yn amhosibl i'n gafael wan ei feistroli. Mae goleuni anfeidrol yn tywynu drwy yr eangderau, er fod cymylau yn ein ffurfafen. Mae

prydferthwch anfeidrol yn denu ein bryd, er fod hagrwch o'n deutu. Mae calonau dynol yn dyheu am gyflawnder cariad er difetha hunanoldeb o'r byd. Feallai nad ydyw pob trem o'r pictiwr yn hardd, ond mae yr oll yn ddaionus. Nid ydyw pob ymddangosiad o natur, feallai, yn gariadus, ond mae yr yspryd anfeidrol tucefn i natur yn dda, yn gariadlawn a hawddgar. Nis gellir meddwl na chredu dim arall. Nid ydyw bywyd yn werth ei fyw ond wrth goleddu y drychfeddwl hwn.

Mae y benod ar *Weddi a Rheswm* yn un hynod o dda. Byddai ei darllen yn adgyfnerthiad i ffydd wan pob Cristion. Hoffem weled y benod yn cael ei chyfieithu a'i hargraffu ar dudalenau Yr Ymofynydd, ac yna ychydig filoedd o gopïau yn cael eu hargraffu yn bamphledi a'u dosparthu yn rhad i bawb yn ein capeli ni yn Nghymru. Byddai mabwysiadu'r syniadau gynwysa y benod yn symbyliad i fywyd ysprydol ein cynulleidfaoedd, ac yn rhwym o ddwyn bywyd crefyddol newydd i fewn i'n heglwysi. Wele gipdrem ar rai o'r syniadau. Gan fod Duw yn yspryd a dyn yn yspryd, mae yn naturiol disgwyl y dylai fod yna gymundeb rhwng dyn a Duw, bywyd y bydysawd. A chan fod Duw nid yn unig yn fywyd grasusol wrth galon pob peth, ond hefyd yn ewyllys da, eglur yw fod Duw yn ewyllysio i'w fywyd dreiddio drwy ei blant, fel mae dyn yn peri i'w fywyd ddylifo drwy bob gwythïen, pob cell, a phob gieuyn yn y corph.

Gwna Duw ei ran yn ffyddlon,

ac mae yn anrhaethol bwysig i ddyn ddwyn ei fywyd i gyfaddasrwydd â bywyd Duw, a'i yspryd i gydgordiad â'r yspryd tragwyddol. Mae cyfaddasrwydd ysprydol yn ymddibynu ar bedwar o anhebgorion—dealltwriaeth resymol, gwylder neu uwchdrem barchedig, ewyllys ufudd, a'r ewyllys i wneud daioni. Ond i ddyn feddu yr anhebgorion hyn, mae yn sangu ar y fan lle mae galluoedd y bydysawd yn cydgwrdd, ac mae gallu a doethineb Dwyfol yn dylifo drwy ei galon nes peri iddo yn ystyriol wrando, ac yna i lefaru a gweithredu fel un yn adlewyrchu y goleuni roddwyd gan Dduw. Cydweithio â'r galluoedd dwyfol, â'r meddwl dwyfol, â'r cariad dwyfol, dyna'r syniad am weddi. Un amser ceisiai pobl blygu ewyllys y Goruchaf i undeb â'r ewyllys ddynol; heddyw ceisir plygu yr ewyllys ddynol nes ei dwyn i undeb â'r ewyllys ddwyfol. A dyma swydd gweddi. Mae yn anrhaethol bwysig yn mha dymher neu ba yspryd yr ymgymerwn âg unrhyw orchwyl. Mae yr yspryd neu y dymher ddynol yr offeryn mwyaf dillyn yn y byd. Os eir allan at orchwyl mewn tymher ddrwg, os symudir yn mysg ein cyfoedion mewn yspryd sur, sarug, pryderus a digllawn, yna dygir anrhaith ar y gorchwyl mor sicr a phe bai y crythwr yn chwareu a'r holl dànau allan o diwn. Mae gweddi y swydd mwyaf pwysig a berthyn i fywyd. Nis gall neb hebgor gweddi ac ar yr un pryd gyflawni yr oll o'r gwaith sydd bosibl iddo. Coda gwr yn y boreu i gyflawni gwaith bôd dynol; eto, mewn gwirionedd, i gyflawni gwaith Mab Duw. A ruthra efe fel caethwas fflangelledig at ei oruchwylion? Gadewch iddo gymeryd ychydig o hamdden teilwng o ddyn cyn dechreu ei orchwyl. Gadewch iddo godi ei olygon at y bryniau a chanfod diwedd ac amcan y daith; gadewch iddo o leiaf yngan, "Dy ewyllys Di a wneler," cyn cychwyn allan. Nid oes wahaniaeth pa beth ydyw gwaith bywyd, pa un ai masnachwr, dysgawdwr, meddyg, crefftwr, gwladweinydd, neu ben teulu, mae dal cymundeb â Duw yn anhebgorol angenrheidiol er bod yn llwyddianus. Pwy sydd am ddeall, gweithredu, byw a charu ar ei oreu? Rhaid iddo weddio. Dyma yr unig ffordd y gall gadw ei hun mewn undeb â ffynhonell bywyd.

A ydyw gweddi yn cael ei hateb?

Pan edrychwn ar y byd fel cartrefle

meddwl, cariad, ewyllys, yspryd, mae yr oll yn ymddangos fel moddion i hyrwyddo cymundeb rhwng Duw a dyn, a dyn a Duw. Beth sydd ar ddyn, plentyn Duw, mewn gwirionedd eisiau? Mae arno eisiau profiad, deall, doethineb, anogaeth, a chymhelliad i dyfu, gallu i weled a defnyddio profion o gariad Duw. Beth bynag sydd ar ddyn mewn gwirionedd eisiau, mae y bydysawd wrth law yn barod i'w gyfranu. Yn y dymher hon mae gweddi yn cael ei hateb. Mae dyn yn agor ei galon i dderbyn, a Duw yn cymeryd ei blentyn ato ei hun er datguddio iddo ei gariad a'i brydferthwch. Pa enaid erioed sydd wedi rhoddi prawf ar effeithiolrwydd gweddi, ac wedi cael allan fod y weddi wedi troi allan yn fethiant?

"Ni fethodd gweddi daer erioed
A chyrhaedd Ior y Nef."

J.T.

EGLWYS Y DYFODOL.*

"Eglwys y Dyfodol," gan Dr. Hunter. Pwy a pha beth yw Dr. Hunter? Gweinidog Eglwys y Drindod, Glasgow, yw'r ateb byraf. Nid yw'r ateb hwn, fodd bynag, yn ein gwneud nemawr callach. Cynulleidfaol yw'r Eglwys hon o ran ffurf-lywodraeth; ac iawnffyddol neu Drindodaidd (fel yr awgryma ei henw) o ran athrawiaeth. I bob un sydd yn gyfarwydd â hanes Eglwysig gyfoesol mae ei henw yn adnabyddus. Pa'm? Am yr unig reswm fod Dr. Hunter yn weinidog iddi. Beth sydd yn cyfrif am boblogrwydd Dr. Hunter? Yn gyntaf, saif yn y radd flaenaf fel pregethwr. Pa le bynag y gwna ei ymddangosiad ar y llwyfan, â lluoedd i wrando arno. Mae wedi enill safle anrhydeddus fel duwinydd, er efallai mai anghywir fyddai ei osod yn uchel yn y cylch hwn. Ond nid ei boblogrwydd fel pregethwr na'i safle fel duwinydd sydd yn ei wneud yn berson mor ddyddorol i ni fel crefyddwyr rhyddfrydig; ond yn hytrach y ffaith ei fod yn un o brophwydi mwyaf blaenllaw yr hyn a adnabyddir yn gyffredin fel y "dduwinyddiaeth newydd." Ni chaniata gofod yn awr i roi desgrifiad o'r dduwinyddiaeth hon. Cafodd ei bodolaeth yn yr Amerig, lle y genir pob mudiad newydd o'r fath hyn, yn benaf yn mhlith y Cynulleidfaolwyr, neu yr Anibynwyr, fel yr adnabyddwn ni hwy. Yna daeth drosodd i Loegr; ac erbyn hyn, mae iddi nifer luosog o bleidwyr. Yn mhlith y rhai hyn, yn ychwanegol at Dr. Hunter, ceir ein cydwladwr talentog, y Parch. Rhondda Williams, Bradford; hefyd y Parch. R. J. Campbell, olynydd Dr. Parker yn y City Temple; ac erbyn hyn, gellir ychwanegu enw Dr. Warschauer, gweinidog Undodaidd yn Mryste hyd yn ddiweddar, ond yr hwn sydd bellach wedi trosglwyddo ei serch i Eglwys Anibynol yn Llundain. Yn y byd newyddiadurol, pleidir yr unrhyw egwyddorion gan y *Christian World*; a hyn, yn ddiau, sydd yn

* "THE COMING CHURCH: A plea for a Church simply Christian. By the Rev. John Hunter, D.D., Glasgow."

gwneud y papyr hwn mor dderbyniol gan nifer mor lluosog o Undodiaid. Tra na roddir yma ddesgrifiad o safle dduwinyddol y blaid (os iawn ei galw yn blaid, efallai y byddai y gair mudiad yn gywirach desgrifiad), gellir dyweyd mai un o'i nodweddau amlycaf yw ei hyspryd rhyddfrydig a goddefol.

Rhydd y llyfryn uchod i ni feddyliddrych lled gywir o'r ddelfryd o Eglwys y gesyd y blaid ei bryd ar ei sylweddoli—Eglwys hollol gydfynedol â syniad y Blaenor. Beth oedd syniad y Blaenor am Eglwys yw'r mater y ceisia'r awdwr ei benderfynu yn gyntaf. Ar ol gwneud hyn, gesyd ffrwyth ei ymchwiliad allan yn y darnodiad canlynol o Eglwys Gristionogol :—nifer o ddynion yn ymgynull yn enw'r Iesu, ac mewn cydymdeimlad âg yspryd ac amcan ei fywyd ac â syniad canolog ei addysgiadau. Beth oedd y syniad hwn? Teyrnas Dduw. Beth oedd amcan ei fywyd? Sefydlu Teyrnas Dduw ar y ddaear. Beth oedd yspryd nodweddiadol ei fywyd? Yspryd addfwyn a gostyngedig. Felly, gwelwn mor syml oedd amcan bywyd Iesu Grist a'i syniad am Eglwys. Yn ol natur pethau, yr oedd yr Eglwys yn angenrheidiol. Trwy gyfrwng cymdeithasau y sicrheir llwyddiant pob mudiad o'r fath hyn. Felly hefyd, rhaid oedd wrth genhadon i daenu ei genhadwri, ac er na ddywedodd Iesu un gair am gredoau, eto, credwn nad oedd ganddo un gwrthwynebiad i gredoau fel y cyfryw, ond ni freuddwydiodd erioed am eglwys rwysgfawr, sacramentaidd ; am offeiriadaeth, fel y gwelir hi yn yr Eglwys Gristionogol heddyw ; nac am gredoau fel amod derbyniad i'w Eglwys.

Ar ol nodi allan pa fath un ydyw Eglwys Gristionogol gydfynedol ag addysg yr Athraw, gwaith hawdd yw dangos mor bell y mae Cristionogion wedi colli golwg arni. Gwna cipolwg ar y byd Cristionogol heddyw amlygu i ni un ffaith hynod awn—dim llai na hyn : fod crefydd syml y Prophwyd o Nazareth, neu, yn fwy cywir, y grefydd a gambriodolir iddo yn gyffredin, wedi esgor ar o ddau i dri chant o enwadau—efallai ragor. Yn gyntaf, cawn yr Eglwys Babaidd, gyda'i defodaeth rwysgfawr, ei hoffeiriadaeth sacramentaidd, a'i threfniadaeth ddyrus a pherffaith. Yna, daw'r Eglwys Roegaidd, o'r un natur a'i chwaer o Rufain, ond heb fod mor eang ei hawdurdod. Yn Lloegr, cawn yr Eglwys Esgobaethol, hithau hefyd yn perthyn yn agos i'r ddwy flaenorol. Tu allan i'r rhai hyn ceir yr Eglwys Brotestanaidd, yr hon sydd erbyn hyn wedi ymranu i'r fath luaws o ganghenau—Methodistiaid (o lawer math), Bedyddwyr, Anibynwyr, ac felly yn y blaen. Beth sydd yn cyfrif am yr ymraniadau hyn? Mae llawer o achosion wrth eu gwraidd yn ddiameu ; ond ni chaniata gofod i sylwi arnynt yn awr. Nid hyn, ychwaith, yw ein hamcan yn y llith hwn. Mae un peth, fodd bynag, yn nodweddu'r aml enwadau hyn, nas gall lai na thynu sylw pob myfyriwr o hanes Eglwysig, sef, yr yspryd o anffaeledigrwydd sydd yn rhedeg trwyddynt oll. Pe gofynid iddynt, yn un ac un, pa un yw'r enwad neu'r eglwys iawn, mwyaf cydfynedol âg addysg y Blaenor, yr ateb bron yn ddieithriad fyddai—*ein henwad* neu *ein heglwys ni*. Gwylir caerau bron pob enwad ac eglwys gan ffurfiau neillduol o lywodraeth eglwysig, a chan gredoau a chyffesiadau ffydd. Beth yw'r canlyniad o hyn? Ni chydnabyddir y Protestaniaid fel Cristionogion gan yr Eglwys Babaidd. Ar y tu arall, sefydliad anghristionogol yw'r Eglwys Babaidd i'r mwyafrif o Brotestaniaid Gelwir y Pab gan lawer yn au-Grist. A phair pob arwydd o gynydd yn yr Eglwys Babaidd ofid calon—hyd yn nod ddychryn—yn yr holl wersyll.

Dymunol iawn yw troi oddiwrth y darlun hwn o Eglwys Gristionogol at y darlun a osodir ger ein bron gan Dr. Hunter. Beth yw'r Eglwys y gesyd efe ei fryd arni? Eglwys, unig rwymyn undeb yr hon fydd

unrhywiaeth cydymdeimlad, dyhead, ac amcan. Bydd ynddi le i bob dyn sydd mewn cydymdeimlad âg amcan bywyd Iesu Grist, sydd yn dyheu am sylweddoliad mwy cyflawn o hono yn ei fywyd ef ei hun ac yn mywydau eraill, ac yn gwneud ei ran i ddwyn hyn oddiamgylch. Mater o ddewisiad fydd y defodau allanol y cydffurfir â hwynt a'r syniadau duwinyddol y credir ynddynt. Pa un ai ychydig neu lawer o ddwfr ddefnyddir mewn bedydd; pa un ai fel defod rwysgfawr neu wasanaeth syml yr edrychir ar Swper yr Arglwydd; pa un ai ffurf-wasanaeth flodeuog, fel yn yr eglwysi pabyddol ac esgobaethol, neu un syml, fel yn y Bethelau Protestanaidd, yn eglwys y dyfodol bydd pob un at ei ryddid i ddewis drosto ei hun yn y pethau hyn. Hefyd ni cheuir neb allan ar gyfrif ei syniadau duwinyddol, fel y gwneir yn awr. Felly, pan y sylweddolir y ddelfryd hon o eglwys, bydd y fath enwau gwahaniaethol a Phabyddion, Lutheriaid, Esgobaethwyr, Presbyteriaid, Methodistiaid, Independiaid, Undodiaid, Crynwyr, &c., yn hollol ddiangenrhaid. Ni olyga hyn na fydd syniadau Pabyddol, Lutheraidd, Esgobaethol, Methodistaidd, Undodaidd, &c., yn cael eu credu. Ca pob un berffaith ryddid i gredu yr hyn a ymddengys iddo ef yn wir a chydffurfio â'r defodau mwyaf cydfynedol â'i chwaeth. Ni cheuir neb allan o un Eglwys Gristionogol cyhyd ag y bydd mewn cydymdeimlad âg yspryd ac amcan bywyd Iesu Grist.

Mae'r eglwys hon yn mhell o fod yn ffaith eto. Ni chredwn fod hyd yn nod Eglwys y Drindod (Glasgow) wedi dod eto yn agos ati, er fod Dr. Hunter yn weinidog iddi. Ac ymddengys i ni fod enw'r eglwys ei hun yn hollol anghydweddol â'r hyn a draethir o'i llwyfan o Sul i Sul gan ei gweinidog talentog. Nid yw efe, eto, mwy na'r "duwinyddion newydd" ereill, ond megis lleisiau yn yr anialwch. Ond cyflawnant waith rhagredegwyr, symudwyr rhwystrau a gwastadäwyr ffyrdd, ar gyfer yr adeg y bydd corph y fyddin yn barod i symud yn mlaen i'r tir newydd. Ar i'r adeg hon ddod yn fuan yw ein gweddi.

E.C.

YR HIBBERT JOURNAL AM HYDREF.

Os bydd rhai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD mor ffodus a chael y cyfleustra o ddarllen y Rhifyn hwn o'r *Hibbert*—a gobeithio y bydd yna lawer, tebyg y cychwynant, ar ol sylwi ar y cynhwysiad, gydag erthygl y Cymro disglaer ac enwog, Proff. Henry Jones, o Glasgow, ar "Ffydd weithredol y Diwygiwr cymdeithasol." Maddeuer i mi am ddweyd fy mod wedi cael yr anrhydedd o glywed yr awdwr yn traddodi y ddarlith am y tro cyntaf yn Ngholeg Manceinion, Rhydychen. Yr oedd ei bersonoliaeth drydanol ac arddull ei draddodiad yn ei gwneud nid yn unig yn ddyddorol, ond mor llawn o fywyd a theimlad fel nad yw ei darllen yn cyfleu ond argraff wan o'r dylanwad gafodd ar y gwrandawyr. Sylfaen athrawiaeth Mr. Jones fel ei hen athraw, Dr. Caird, yw "Colli einioes er ei chadw hi." Rhaid i'r unigolyn fyw allan er mwyn byw *i* fewn; rhaid iddo roddi er mwyn cael, a byw er mwyn eraill cyn y medro feithrin a dadblygu y cyneddfau goreu yn ei fywyd ei hun. Mae

Duw a dyn i gydweithio er sicrhau iachawdwriaeth yr olaf. Ufudd-dod i Dduw yw gwasanaeth i ddyn. Os nefoedd i mi, nefoedd i bawb. Dyna Efengyl werth ei chofleidio. Cred yr awdwr fod cynhyrfiadau o'r fath ag a welwn ar hyn o bryd yn Nghymru, lle mae teimlad yn diswyddo rheswm, wedi ac yn bod yn niweidiol. Erthyglau ffydd y gwir ddiwygiwr ydynt: ymddiried yn y da sydd yn y byd a ffyddlondeb i'r gymdeithas y ceisia ei dyrchafu i safle uwch a gwell. Gofyna hyn gydymdeimlad â gwendid y cnawd, syniad uchel am y natur ddynol, mewn-weledíad i'w angenrheidiau a dealltwriaeth o'r egwyddorion ar y rhai yn unig y mae iddo sicrhau llwyddiant. Mewn gair rhaid cael gwyddor, a dwyn holl ymdrafodaeth dyn i gydgordiad a'i deddfau. Diolchwn am bob ymweliad o'r angel i gynhyrfu y dyfroedd; ond gofalwn ar yr un pryd fod yna drefn yn cael ei dwyn i fewn i reoleiddio y canlyniadau. Dywed hefyd fod yr oes bresenol yn ffafriol i grefydd—nid fel y mae yn cael ei mynwesu gan lawer, ond crefydd bur a dihalogedig gerbron Duw a'r Tad megis ag y mae Iago yn son am dani sef "ymweled a'r gwragedd gweddwon a'r amddifaid," ac yn y blaen. Y mae wedi tyfu allan o'i hen ffurfiau, ac angen penaf yr oes yw am flaenor mawr i roddi cyfeiriad a gwedd newydd iddi. Pa bryd y daw, tybed?

Y pwnc sydd gan y Golygydd mewn llaw yw "Uwchafiaeth foesol Cristionogaeth." Awgrymir y testyn gan esgyniad disymwth Japan i blith rhestr flaenaf pwerau y byd. Yr ydych wedi darllen rhywbeth am hyny yn barod. Felly nis gwnaf ond yn unig nodi un neu ddau o bethau lle hawlia Japan ragoriaeth. Yn y rhyfel rhyngddynt â Rwsia yr oedd triniaeth y Japaniaid o'r carcharorion a'r clwyfedigion, y rhesymoldeb a'r hunanfeddiant amlygasant wrth sicrhau heddwch tuhwnt i ddim ag y gwyddom dano yn holl hanes rhyfeloedd y byd. Ac, yn mhellach na hyn, mae eu Duwinyddiaeth yn fwy syml, eu crefydd yn fwy ymarferol, eu cyfundrefn o addysg—sydd yn gosod y pwys mwyaf ar ffurfio cymeriad, yn nghyda'u cariad tuag at y pur a'r prydferth, wedi eu perffeithio i raddau mwy nag un genedl ar yr hon mae Cristionogaeth wedi ysgrifenu ei henw. Beth ydym i ddysgu oddiwrth hyn? Nid wyf yn tybied fod eisiau i ni droi at grefydd Bwda—canys dyna yw eiddo Japan—am y credaf fod yma ddigon o bosibl-rwydd yn nghrefydd yr Iesu, ond ei bod wedi ei halogi gan ddynion wrth ei throsglwyddo i lawr. Awn yn ol at y ffynhonell unwaith eto, ac yfwn o'i dyfroedd pur ac iachus. Rhoddwn chwareu teg i "Bregeth y Mynydd," ac yna y cawn weled lle byddwn yn sefyll wed'yn.

J.P.D.

PRIODASAU.

MEDI 29ain, yn Nghapelybryn, gan y Parch. J. Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins, yn ngwydd y Cofrestrydd, Daniel Thomas, Castellhywel Arms, Llandyssul, â Margaret Richards, Waun, Llanwenog. Iechyd a dedwyddwch fyddo'u rhan.

MEDI 30ain, yn nghapel Llwynrhydowen, gan y Parch. E. O. Jenkins, David Jones, Watchmaker, Llanbedr, â Margaret Davies, Castellhywel, Llandyssul. Gwenau'r nefoedd fyddo ar eu gyrfa newydd.

MARWGOFION.

HYDREF 7fed, yn 18 mlwydd oed, Mary Jane, merch ieuengaf Mr. a Mrs. Jones, Ceginan, plwyf Llandyssul. Gwanaidd fu cyfansoddiad ac iechyd yr ymadawedig am rai blynyddau, a gwelwyd arwyddion er ys tro nad oedd y ddacar i fod yn ddinas barhaus iddi. Ond er y corph egwan gwnaeth waith mawr, ac enillodd serch ac edmygedd cylch helaeth o gyfeillion, fel y tystiolaethwyd adeg ei marwolaeth. Yr oedd yn eneth o dymher wylaidd ac addfwyn, yspryd serchog, ffyddlondeb a brwdfrydedd yn yr Ysgol Sul a'r capel lle yr addolai, ac wedi ei donio â'r ddawn gerddorol. Bu am flynyddau, gydag eraill, yn chwareu yr organ gyda medrusrwydd yn Mhantdefaid, ac ar waethaf y pellder mawr oedd ganddi i deithio, a phob dryc-hin, nid oedd ei lle yn wâg tra y gallodd. Yr oedd yn esiampl o beth all penderfyniad a ffyddlondeb ei wneud. Claddwyd ei gweddillion y dydd Mercher canlynol yn Mhantdefaid. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins. Ar ddymuniad y teulu chwareuwyd yr organ gan Mrs. Dr. Jones, Llanybyther, hen athrawes yr ymadawedig. Addurnid man fechan ei bedd gan flodeudyrch, ac un neillduol oddiwrth Ysgol Sul Pantdefaid fel arwydd o'r anwyldeb tuag ati. Gadawodd rieni, brodyr, chwiorydd, a chyfeillion lawer mewn galar ar ei hol.

" Mwy ar dánau y berdoneg
Ni chwareua'th law fach, wen ;
'Does ond adgof melus, melus,
Mwy am danat is y nen ;
Fel pan dawo cân aderyn :
Mae ei nodau yn y glust
Yn hir aros fel rhyw adsain
Haner melus, haner trist.

Felly'th ganu melus dithau,
Felly'th lais nefolaidd di,
Er mewn daear wedi tewi—
Llanwant ein calonau ni ;
Ffarwel eneth dawel, dirion,—
Er dy fod mewn gwlad o hedd,
Eto'th geraint a'th gyfeillion
Wylant ddagrau ar dy fedd.

HYDREF 9fed, bu farw Jane Davies, Pensarn, ger Cribyn, yn 49ain mlwydd oed. Gadawodd mewn galar ar ei hol dad, brawd a chwaer, a phump o neiaint. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Llanwnen dydd Iau canlynol. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. Mr. Adams, Shiloh, Llanbedr.

HYDREF 11eg, o'r *typhoid*, Jane, priod Sergeant Davies o Hirwain, a merch y diweddar Jenkin Llewelyn, Pantysgawen, Aberdar, yn 49ain mlwydd oed. Claddwyd yn y *Cemetery*, R.J.J. yn gwasanaethu. Yr oedd Mrs. Davies yn un o'r diniweitiaf o o wragedd, serchog a siriol bob amser, diwyd a defnyddiol yn holl gysylltiadau bywyd, ac o dduwioldeb diamheuol. Yn gymysg â'r hiraeth bydded i'r cofion melus am ei bywyd anhunanol gael eu lle priodol gyda'i phriod a'i dri phlentyn ; a bydded i obeithion eu crefydd eu diddanu a'u helpu yn nhymhor eu galar.

" The blessing of her quiet life
Fell on us like the dew ;
And good thoughts, where her footsteps pressed
Like fairy blossoms grew."

HYDREF 13eg, bu farw David Davies, Esger, Talgarreg, ar ol cystudd hir a phoenus, yn ystod yr hwn y cafodd ofal tirion ei wraig a'i blant. Gadawodd luaws o berthynasau i wylo eu colled. Claddwyd y Mercher canlynol yn Pisgah, a gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. E. O. Jenkins ; yn y capel gan y Parch. Mr. Edwards, Brynrhiwgaled, ac ar lan y bedd gan Ficer Llandyssilio.

MANION AC HANESION.

I GYFAILL DIWYLLIEDIG.

Amynedd, fy nghyfaill, ac amser
A fyddant gyffeiriau i ti ;
Fe gilia blynyddoedd dy flinder,
Daw eto lawenydd fel lli.

Os ydyw y cwmwl a'r niwlen
Uwch ben dy wirionedd yn cwrdd,
O, aros weniadau yr heulwen,
A chlirir y niwlen i ffwrdd.

Os ydyw'r cylymau yn ddyrys
Ar geinciau dy gyffes yn awr,
Daw llaw anweledig i'w dadrys,
Cei dithau lawenydd fydd fawr.

Mi welais cyn hyn fesuronydd,
A gysgodd cyn gweled y gwir,
Yn deffro yn llygad y wawrddydd,
A'r *broblem* fu'n poeni yn glir.

—*Gwili.*

CYFARFODYDD DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF. — Derbyniwyd genym adroddiadau am y cyfarfodydd hyn gynhaliwyd yn ein gwahanol eglwysi yn ystod yr wythnosau diweddaf. Gofod balla i ni gyhoeddi yr oll ddaeth i law, a maddeuer i ni am eu crybwyll fel hyn gyda'u gilydd. Da genym ddwyn tystiolaeth i boblogrwydd y cyfarfodydd hyn yn mhob man, ac i'r dylanwad da yn ddiau erys ar eu hol :—

PANTDEFAID A'R GRAIG.—Hydref 1, 2, a 3—Parchn. E. O. Jenkins a D. J. Evans, Cwmbach.

ALLTYPLACCA, CAPELYBRYN A'R SYCHBANT.—Hyd. 2, 3, 6—Parch. D. Rees, Penybont.

RHYDYGWIN A CHILIAU.—Hydref 3—Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Bradford.

BRONDEIFI A CHAERONEN. — Hydref 3 a 4—Dr. Tudor Jones, Abertawe.

CRIBYN A CHAPELYGROES.—Hyd. 6 a 11—Parchn. Dr. Tudor Jones, J. P. Kane, Dowlais, a John Davies, Alltyplacca.

CAPELYFADFA A LLWYNRHYDOWEN.—Hydref 12 a 13—Parch. J. P. Kane, Dowlais, a'r gweinidog.

CWMBACH.—Hyd. 15 a 16—Parch. D. Rees, Penybont, a'r gweinidog.

PANTTEG A PHENRHIW.—Hydref 9 a 10—Parch. D. J. Evans, Cwmbach.

ABERDAR.—Y gweinidog.

Gwnaed casgliadau bron yn yr holl gyfarfodydd tuag at y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor.

SYCHBANT.—Dydd Llun, yr 2il o Hydref, cynhaliodd Ysgol Sul y lle hwn ei gwyl dê flynyddol. Rhoddwyd y tê eleni gan y bechgyn ieuainc perthynol i'r achos. Gwnaeth y *ladies* eu goreu i foddio pawb wrth y byrddau. Cofiodd Mrs. Rachel Oliver am ffyddlondeb dibaid y plant drwy eu anrhegu â anrhegion gwerthfawr. Yn yr hwyr cynhaliwyd eisteddfod, a llywyddwyd yn ddeheuig dros ben gan y brawd Ifan Lloyd. Cafwyd *programme* amrywiol o ganu, areithio, a dadleu ; ac ymadawodd pawb wrth eu bodd. Da genym ddweyd fod y gweinidog wedi prynu tir er adeiladu y capel newydd. Y mae yn gyfleus ac yn rhad. Dewiswyd 16 o ymddiriedolwyr a ffurfiwyd pwyllgor adeiladu i gydweithredu a'r gweinidog yn y dyfodol.

PENTRE.—Dyma ni unwaith eto wedi gorfod rhoddi *goodbye* i un o'n haelodau. Gwendid penaf ein heglwysi yn y cwm cul hwn yw, nad oes gyda ni ond ychydig deuluoedd sefydlog. Y tro hwn collasom drwy ymfudiad ferch ieuanc o Sir Aberteifi—Miss H. Jones, Caerau, Llanwenog—i Cambridge. Bu am gryn amser yn athrawes yn Williamstown, Penygraig, a thalai ymweliad mynych a ni yn y Pentre. I ddangos fod lle cynes wedi ei enill ganddi yn ein plith, cynhaliwyd *social tea* ar nos

Iau, Hyd. 5ed. Daeth nifer dda yn nghyd a datganwyd ein dymuniadau da i Miss Jones yn ei lle newydd.

Clydach Vale.—Er mwyn newid tipyn o unrhywiaeth ein gwasanaeth arferol ar y Sul anturiodd rhai brodyr a chwiorydd caredig awgrymu cael *sacred concert* yn awr ac yn y man, ac fel rhyw fath o *experiment*, fe'i cynhaliwyd ar nos Sabboth, Hyd. 15, ac mae'n dda calon genym ddyweyd iddo droi allan yn berffaith lwyddiant. Diolch yn wresog i'r bobl ieuainc am ddod allan mor eofn, a chymeryd rhan mor helaeth ynddo.

Hydref 1af, cynhaliodd yr eglwys uchod ei gwyl bregethu flynyddol. Y pregethwr eleni oedd y Parch. J. Davies, Alltyplaca, ac fe allwn oll ddyweyd mai pleser a hyfrydwch digymysg oedd gwrando ar ei hyawdledd yn cludo gwirioneddau newyddion a hen ac yn eu gosod mewn difrifoldeb wrth ddor rheswm a chalon pawb o honom fel eu gilydd. Cafwyd dau wasanaeth—un yn y prydnawn ac un yn yr hwyr, a buan y delo'r adeg y cawn ei weled yn ein plith unwaith eto. Cawsom gyfarfodydd hwylus dros ben.

Ein Myfyrwyr Cymreig.—Eu nifer eleni ydyw saith, a chynwys Mr. James Davies o Talgarreg, sydd yn parotoi yn Ysgol Ramadegol Pencader. Mae Mr. J. Islan Jones, B.A., yn Jena, ac yn bwriadu enill y radd o Ph.D. yn Mehefin nesaf. Erys Mr. Park Davies, B.A. yn Rhydychen fel aelod o Goleg Wadham, a bwriada raddio yn yr Ysgol Dduwinyddol yr haf nesaf. Mae y ddau—Islan Jones a Park Davies—yn *Hibbert Scholars*. Mae Mr. J. D. Jones yn aelod o Goleg yr Iesu, ac yn ei flwyddyn ddiweddaf. Bwriada raddio yn B.A. ar ddiwedd ei amser. Da genym weled fod tri myfyriwr Cymreig yn Ngholeg yr Undodiaid yn Manceinion—S. Evans Bowen o Llwyneinon, Castellnewydd Emlyn, Matthew Watkins a John Davies o Aberdar. Dymunwn iddynt i gyd iechyd i ganlyn eu hefrydiaethau a phob llwyddiant.

Y Diweddar Barch. Morlais Jones.—Yn mhregeth angladd y gweinidog enwog hwn dywedodd y Parch. J. M. Gibbon nad oedd Mr. Morlais Jones yn credu fel y gwnai unwaith. Yr oedd wedi ymwrthod a'r hen hualau duwinyddol, ond eto trwy y cwbl yn parhau yn deyrngarol i Iesu Grist. Dyna safle yr Undodwr hefyd i'r tipyn.

Y Diweddar Dr. Mackennal Bowdon.—Dyma un arall o brif weinidogion yr Anibynwyr a fu farw yn ddiweddar. Mae ei fywgraffiad newydd ei gyhoeddi. Ymddengys ei fod yn derbyn ymresymiad Dr. Martineau gyda golwg ar Hollwybodaeth Duw a Rhyddid Ewyllys dyn. Hyny yw, credai nad oedd Duw yn hollwybodol, a'i fod wedi cyfyngu ar ei hollwybodaeth yn gystal a'i hollalluawgrwydd wrth sicrhau rhyddid ewyllys i ddyn. Condemniai hefyd y duedd gyffredin yn ei enwad ac enwadau eraill i weddio ar Grist, ac nid ar "Ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd."

Dr. Chas. W. Eliot.—Dywed *Daily News* Llundain fod Dr. Charles W. Eliot yn cael ei ystyried yn brif ddinesydd yr Unol Dalaethau yn nesaf at y Llywydd ac un o'r hen Lywyddion a ddigwydda fod yn fyw. Dr. Eliot yw Llywydd Prifysgol Harvard, a'r awdurdod uchaf ar addysg yn y Talaethau. Efe gafodd yr anrhydedd o fod yn gadeirydd y cyfarfod mawr a gynhaliwyd yn Boston yn ddiweddar i roddi croesawiad i Archesgob Caergaint. Anghofiodd y *Daily News*, fel mae arfer newyddiaduron o bob math, i ddweyd mai Undodwr yw Dr. Eliot, ac yn dal cysylltiad agos iawn ag Undodiaeth yn y Talaethau. Mae ei fab, y Parch. Dr. Samuel Eliot, yn llywydd parhaol y Gymdeithas Undodaidd Americanaidd. Gorfodir ni yn erbyn ein hewyllys i alw sylw at ffeithiau o'r fath yn wyneb yr ymgais barhaus i'w hanwybyddu yn y newyddiaduron.

Y Parch. Francis G. Peabody.—Mae Ymherawdwr yr Almaen, o dan nawdd a chyfarwyddyd neillduol

yr hwn y dygir yn mlaen waith Prifysgol Berlin, newydd wneud trefniadau i sicrhau gwasanaeth athrawon tuallan i'r Almaen i roddi darlithiau i'r myfyrwyr ar gynllun math o *exchange*. Yn unol a'r cynllun hwn, gwahoddwyd y Parch. Dr. Peabody, un o brif weinidogion yr Undodiaid yn y Talaethau, a Phroffeswr *Christian Morals* yn Mhrifysgol Harvard, i draddodi cwrs o ddarlithiau ar ei bwnc ei hun yn y Saesneg a'r Almaenaeg yn Mhrifysgol Berlin. Pwnc Dr. Peabody ydyw "Moesoldeb Cristionogol." Dywedir yn rhagl yn y dyddiau hyn hyd yn nod yn Llandyssul, lle bu Gwilym Marles o fendigedig goffadwriaeth, yn ilafurio a dioddef am flynyddoedd lawer dros ryddid mewn gwleidyddiaeth a chrefydd, nad yw Undodiaid ddim yn Gristionogion o gwbl. Byddai tipyn o ysgol heb son am Brifysgol yn help i oraclau'r ffydd ar lanau y Teifi i gyraedd safle Ymherawdwr yr Almaen ac awdurdodau Prifysgol Berlin, ac i gredu fod hyd yn nod pregethwr Sosin yn gwybod oddiar brofiad personol rywbeth am Gristionogaeth a ddichon fod yn ddefnyddiol.

PANTEG. — Oherwydd gwaeledd ein parchus weinidog, y Parch. J. Williams, yr ydym wedi derbyn caredigrwydd mawr oddiwrth y gwahanol weinidogion ac eraill fu yn cynal gwasanaeth misol yn y lle oddiar mis Ebrill diweddaf, sef y Parchn. T. A. Thomas, Llandyssul; E. O. Jenkins, Llwynrhydowen; Mri. J. Park Davies; T. G. Thomas, Talgareg; J. Davies, Pencader, a'r Parch. D. J. Evans, Cwmbach, ac y maent oll yn teilyngu y parch uwchaf am eu gwasanaeth anmhrisiadwy, a gobeithio y gwna y gweinidogion eraill i ganlyn eu hesiampl wir Gristionogol. Yr ydym yn ddyledus ac yn dymuno cyflwyno ein parch dyfnaf i'r Parch. W. James, B.A. U.H., Llandyssul, am yr holl drefniadau a'r cynorthwy mae wedi ddangos, a gobeithio y parha yn ffyddlon tuag atom.—Ysg.

"PAHAM YR WYF YN UNDODWR?" —Dywenydd genym ddeall y bydd ein hunig gylchgrawn cenedlaethol, "Y Geninen" am y flwyddyn nesaf, yn cynwys erthygl ar y pwnc dyddorol uchod, wedi cael ei hysgrifenu gan neb llai na'r llenor amryddawn, y Parch. R. Jenkin Jones, M.A., Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar. Prin y mae eisieu i ni anog ein darllenwyr deallus i roi pob cefnogaeth i'r "Geninen," oherwydd y mae, o ran ei heangfrydedd a'i hysbryd trwyadl genedlaethol, yn sefyll ar ei phen ei hun yn mysg holl gyhoeddiadau yr iaith. Nid rhy barod yw cyhoeddiadau eraill yr iaith wedi bod i adael i ni draethu ein syniadau ynddynt; ond dyma'r "Geninen" yn agor ei drws led y pen i ni. "Y Gwir yn erbyn y byd." "Llafar bid lafar."

Y DIWEDDAR JENKIN HOWELL.—Credwn y bydd a ganlyn oddiar gareg fedd un a argraffodd YR YMOFYNYDD am flynyddoedd lawer yn dderbyniol gan lawer o'n darllenwyr. Fe'i gwelir yn mynwent eglwys Penderyn, yn Sir Frycheiniog:

"Er Cof
am
JENKIN HOWELL, F.S.S.,
Argraffydd, Aberdâr,
Bardd, Cerddor ac Hynafiaethydd,
ac un o gyfarwyddwyr rhagoraf
Yr Urddau Dyngarol.
Ganwyd 1836; bu farw 1902.

Gwron yn mysg dyngarwyr,—a llenor
Llawnaf o bob synwyr;
Nawdd i leng o farddol wyr,
Ac enwog yn mysg canwyr.

—WATCYN WYN."

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Fel y gwyr y rhan fwyaf o'n darllenwyr pasiwyd fod y Gymanfa hon i'w chynal y tro nesaf yn Llandyssul. Gwnaeth Cadben Davies gais am fenthyg capel yr Annibynwyr, a phasiwyd ei roddi heb ond ychydig wrthwynebiad. Yn ddiweddarach pasiwyd ei wrthod yn derfynol.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

DO YOU KNOW

A GOOD THING FOR—

HEADACHE, TOOTHACHE, and NEURALGIA ?

Is a question often asked and, as a rule, every person suggests a different remedy. As a guide to all sufferers of these distressing complaints, we have no hesitation in recommending . .

DAVIES' NERVINE POWDERS.

One dose generally relieves the most agonising pain.

Sold in Boxes 1s. 1½d. each post free.

From THOS. DAVIES, M.R.P.S.,
Chemist, Llandyssul.

YOUR EYESIGHT .

Is a most precious gift. If it is defective do not let it suffer from want of

SUITABLE GLASSES.

Being in possession of the most approved instruments, the sight can be accurately tested.

Sufferers should lose no time

IN CONSULTING

D. JONES

Qualified by Examinations, London.

11, HIGH STREET,
(Opposite Royal Oak Hotel).

LAMPETER.

WEDDING RINGS. RELIABLE WATCHES.

Lowest Cash Value.

☞ Persons that cannot call will do wise to write.

Thos. Jones & Son, Llandyssul,

Have the Largest Stock and Best Selection of

BOOTS AND SHOES

In the Town.

Men's from 3/6 to 17/6; Ladies' and Children's from 1/11 to 12/6.

Sole Agents for the well-known

HOLD-FAST BRAND.

Thousands of Testimonials.

Hand-sewn made to measure. Repairs neatly done & cheap.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

ALBION, LLANDYSSUL AND PENCADER.

BOOTS, SHOES, AND SLIPPERS,

The Largest and Best Selected Stock in the Three Counties.

Sole Agent for the Dry Foot Brand. Acknowledged to be the Best Boot in the Market. Every pair guaranteed.

Repairs neatly and cheaply done by experienced men on the premises.

GRIFFITH DAVIES.

EVANS BROS.,

Manchester House, Llandyssul.

TAILORS, OUTFITTERS, HATTERS, HOSIERS, &c.

A large Assortment of Gent's and Youths' Rainproof Coats.

Mourning Orders promptly executed.

An Inspection will be much appreciated.

Cambrian Factory, Lampeter.

DAVIES BROS.'
BOOTS & SHOES

ARE POPULAR IN ALL TOWNS.

WHOLESALE AND RETAIL.

. . A large Consignment of . .

HYACINTHS, TULIPS, and other DUTCH BULBS.

The Best Varieties.

Fruit Trees, Roses, Ornamental Trees & Shrubs.

Catalogues Free.

Funeral Wreaths, Crosses, Wedding Bouquets, &c.

HARRY COYSH, Nott Square, Carmarthen.

25 years practical experience in Home and Foreign Nurseries and Seed-growing Establishments.

A very Choice Selection of Artificial Wreaths always in Sotck.

COMMERCE HOUSE

LAMPETER.

D. NUN DAVIES,

. . FOR . .

Millinery, Capes, Jackets, Costumes & Furs

OF THE NEWEST STYLES.

Henry Thomas & Sons,

GENERAL DRAPERS,

'THE EMPORIUM,' 2, GUILDHALL SQUARE,

CARMARTHEN.

Ground Floor.

Linen, Cotton and Woollen Goods, Dresses, Silks, Hosiery, Gloves, Laces, Ribbons, Trimmings, and Gents' Mercery, Linoleums, Carpets, and General Furnishing.

Show Rooms.

The Largest and Most Selected Stock in the District of Mantles, Jackets, Costumes, Furs, Ladies' and Children's Underclothing of Every Description. A Grand Show of English and French Millinery.

☞ Dressmaking and Millinery Workrooms under Most Competent and Experienced Management.

LLANDYSSUL COUNTY SCHOOL

(FOR BOYS AND GIRLS)

Head Master: WILLIAM LEWIS, M.A., Cantab.

Late Foundation Scholar and Prizeman of Queens' College, Cambridge; Wrangler 1890.

Mistresses: Miss Lena Jones, B.A., Wales; Cambridge Teachers' Diploma.

Miss M. A. Roberts, B.A., Wales;

Classics and Modern Languages: J. Keble Hudson, M.A. (Oxon.).

Late Open Classical Scholar of Wadham College Oxford; 1st Class in Lit. Hum., 1890.

Science: D. James Davies, B.Sc. (Wales).

Drawing: Wm. Jones, A.R.C.A., (Lond.), of the Carmarthen School of Art.

Instrumental Music: Miss Delia Williams, L.L.C.M.

Vocal Music: Rev. T. Arthur Thomas.

Laundry and Cookery: Miss E. W. Williams.

First Class Diplomas in Laundry and Cookery

Tuition Fee: £1 per Term or £3 per Annum. Music (Pianoforte) £1 1s. per Term.

Implements for all kinds of good farming.

First Class Ironmongery

FOR THE

FARMER, BUILDER, AND HOUSEHOLDER,

AT

WILLIAM JAMES',

IRONMONGERY AND IMPLEMENT DEPOT,

LLANDYSSUL.

ALSO AT NEW QUAY.

TYSSUL STORES. LLANDYSSUL.

D. CHANNING THOMAS,

GROCER, TEA DEALER & GENERAL MERCHANT,

Try D. C. T.'s TEAS—3 different blends of every price. One sure to please.
Prices—1/8, 2/2, and 2/6. Quality at price cannot be beaten.
Write for Free Sample.

This Space To Let.

Apply—

EDITORS, LLANDYSSUL.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums. Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents.

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads, D'oyleys, &c., &c.

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid.

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.